



Plismona, Plant a Thrais

Canllawiau ymarfer ar leihau cyfranogiad
plant mewn trais ar gyfer uwch arweinwyr
yr heddlu

Gwybodaeth am y Gronfa Waddol Ieuenctid

Mae'r Gronfa Waddol Ieuenctid (YEF) yn elusen sydd â chenhadaeth bwysig. Rydym yn bodoli i atal plant rhag cymryd rhan mewn trais. Rydym yn gwneud hyn drwy ganfod beth sy'n gweithio ac adeiladu mudiad i roi'r wybodaeth hon ar waith.

Sefydlwyd yr elusen yn 2019 gyda gwaddol gwerth £200 miliwn dros 10 mlynedd gan y Swyddfa Gartref.

Cronfa Waddol Ieuenctid

2 Bath Place, Rivington Street

Llundain, EC2A 3DR

W: www.youthendowmentfund.org.uk

E: hello@youthendowmentfund.org.uk

© 2026 Mae Ymddiriedolaeth Elusennol y Gronfa Waddol Ieuenctid yn elusen gofrestredig (1185413).
Cedwir pob hawl.

Cydnabyddiaeth

Hoffem ddiolch i'n grŵp cyngori strategol: Alex Murray (Interim Director, Police AI; Chair, Society of Evidence-Based Policing), Amanda Blakeman (Chief Constable, North Wales Police; NPCC Lead for Prevention), Andre Russell (Youth Advisory Board Member, YEF), Andy Cooke (His Majesty's Chief Inspector of Constabulary and Fire & Rescue Services), Andy Marsh (Chief Executive Officer, College of Policing), Catherine Roper (Chief Constable, Wiltshire Police; NPCC Lead for Children and Young People), Grace Strong (Head of Prevention, Leicestershire Police), Keith Fraser (Former Chair, Youth Justice Board; member of the YEF Committee), Kimberley Campbell-Lamb (Director of Legitimacy and Public Service, Bedfordshire Police), Matthew Barber (PCC for Thames Valley and Lead for Serious Violence), Paul Taylor (Police Chief Scientific Advisor, NPCC), Rick Muir (Special Advisor to the Home Secretary), Serena Kennedy (Former Chief Constable, Merseyside Police) and Simon Foster (PCC for West Midlands and Lead for Serious Violence).

Hoffem ddiolch hefyd i'n panel arbenigol: Abimbola Johnson (Barrister, Doughty Street Chambers; Former Chair, Independent Scrutiny and Oversight Board), Alex Sutherland (Professor in Practice, University of Oxford), Andre Russell (Youth Advisory Board Member, YEF), Annemarie Lewis (Founder and CEO, Just Leaders), Ben Bradford (Professor of Policing, University College London), Bethany Grewcock (Strategic Data and Insights Manager, Leicestershire Police), Diane Jones (Serious Violence Programme Lead, Office of the Police and Crime Commissioner for North Wales), Emma Williams (Professor in Applied Research across Uniformed Public Services, Anglia Ruskin University), Helen Walmsley (Sergeant, Merseyside Police), Iain Brennan (Professor of Criminology, University of Hull), Jimmy Belmar (Former Senior Investigating Officer, Project Medusa, Merseyside Police), Kate Anderson (Temporary Assistant Chief Constable, Lincolnshire Police), Matt Bland (Chief Operating Officer, Society of Evidence-Based Policing), Natasha Plummer (Head of Community Engagement, Mayor's Office for Policing and Crime), Nosheen Rathore (Diversity and Inclusion Advisor, College of Policing), Paul Quinton (Evidence and Evaluation Advisor, College of Policing) and Saj Hussein (Detective Superintendent, Metropolitan Police).

Awdur yr adroddiad yw Leanne Cox-Robinson.

Cyflwyniad

Mae'r canllawiau hyn yn nodi chwe argymhelliad sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer plismona ledled Cymru a Lloegr i helpu i atal pobl ifanc 10–17 oed rhag cymryd rhan mewn trais. Mae'r argymhellion yn canolbwyntio ar dri maes allweddol: **trin plant fel plant**, canolbwyntio ar ryngweithio cadarnhaol a diogelu effeithiol; **canolbwyntio ar yr hyn sy'n gweithio**, blaenoriaethu dulliau sydd â'r siawns orau o leihau trais; a **dargyfeirio'n dda**, gan ei wneud yn effeithiol ac yn deg.

Mae'r canllawiau hyn wedi'u hysgrifennu'n bennaf ar gyfer:

- Uwch arweinwyr yr heddlu, gan gynnwys Prif Gwnstablaid, Dirprwy Brif Gwnstablaid a Phrif Gwnstablaid Cynorthwyol a Phrif Uwch-arolygwyr
- Arweinwyr thematig yn y sector plismona sy'n gyfrifol am feysydd perthnasol, gan gynnwys plant, y ddalfa, diogelu, trais difrifol, stopio a chwilio, ac atal.

Mae'r canllawiau hyn hefyd yn berthnasol i swyddogion a staff sy'n ymwneud â phlismona ac sy'n rhyngweithio â phlant, gan gynnwys heddlu rheng flaen, goruchwylwyr a staff arbenigol.

Gall partneriaid plismona ehangach, a chyrrff llywodraethu a goruchwyllo ddefnyddio'r canllawiau hyn. Mae hyn yn cynnwys Comisiynwyr Heddlu a Throseddau (PCC),¹ Swyddfeydd Maerol sy'n cyflawni swyddogaethau PCC a Phartneriaethau Lleihau Trais.

Profiadau plant o drais

Dyma ein diffiniad o drais:

- Defnyddio neu fygwth defnyddio grym corfforol bwriadol,² sy'n cynnwys llofruddiaeth, ymosodiad corfforol, niwed gydag arf a lladrad³ neu
- Unrhyw weithred o drais ar sail rhywedd, a all arwain at niwed corfforol, rhywiol neu seicolegol.⁴

Mae trais yn rhy gyffredin ymysg plant. Y llynedd, canfu arolwg o dros 11,000 o bobl ifanc 13–17 oed ledled Cymru a Lloegr fod bron i un o bob pump wedi dioddef trais, bod un o bob wyth wedi cyflawni trosedd dreisgar a bod un o bob dau wedi bod yn dyst i drais yn erbyn rhywun arall.⁵ Mae llawer o'r trais hwn yn ddifrifol: roedd angen triniaeth feddygol gan feddyg neu mewn ysbyty ar bron i dri dioddefwr o bob 10. O'r plant a oedd mewn perthnasoedd, roedd dau o bob pump wedi cael eu cam-drin yn emosiynol neu'n gorfforol.⁶

Beth yw cyfraniad plismona at gadw plant yn ddiogel rhag trais?

Mae gan bob sector sy'n effeithio ar fywydau plant rôl i'w chwarae o ran eu cadw'n ddiogel rhag trais. Mae'r Gronfa Waddol Ieuenctid (YEF) hefyd wedi cyhoeddi canllawiau ar gyfer sectorau allweddol eraill, gan gynnwys gwasanaethau plant, addysg a gwaith ieuenctid.

Mae gan blismona gyfraniad pwysig ac unigryw i'w wneud:

- **Mae'r heddlu yn bartner diogelu statudol.** Mae ganddynt ddyletswydd gyfreithiol i weithio gyda phartneriaid eraill i amddiffyn plant.⁷
- **Mae'r heddlu'n rhyngweithio â phlant sydd mewn perygl o drais neu sy'n ymwneud â thrais.** Mae'r plant hyn yn aml yn agored iawn i niwed, ac mae rhyngweithio â nhw'n gyfle i ymyrryd.
- **Mae'r heddlu'n ymchwilio i droseddau ac yn dal y rhai sy'n gyfrifol amdanynt.** Gall hyn atal unigolion rhag achosi rhagor o niwed a gall atal eraill rhag troseddu.
- **Mae lleihau trais yn flaenoriaeth plismona.** Mae'r Ddyletswydd Trais Difrifol yn ei gwneud yn ofynnol i blismona ac awdurdodau penodedig eraill gydweithio i atal trais difrifol yn eu hardal.⁸ Mae gan blismona hefyd ymrwymiad cenedlaethol i fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod a merched (VAWG).⁹

Ar gyfer llawer o'r argymhellion yn yr adroddiad hwn, bydd eu cyflawni'n dibynnu ar gydweithio amlasiantaethol cryf. Mae canfyddiadau diweddar o Ymchwiliad Southport¹⁰ ac arolygiadau ardaloedd ar y cyd o ymatebion amlasiantaeth i drais ieuencid difrifol¹¹ yn atgyfnerthu'r angen am arweinyddiaeth, atebolrwydd a chydlynad amlasiantaeth clir.

Beth am y system ehangach?

Mae'r chwe argymhelliad yn nodi sut beth yw arfer da. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y cyd-destun heriol y mae plismona'n digwydd ynddo, gan gynnwys adnoddau cyfyngedig a gofynion sy'n cystadlu â'i gilydd. Nod y canllawiau hyn yw eich helpu i fanteisio i'r eithaf ar yr adnoddau sydd ar gael i chi. Yn y dyfodol, byddwn yn cyhoeddi argymhellion i'r llywodraeth ar wella'r system blismona ehangach i'w gwneud yn haws i chi wneud y pethau sy'n gweithio.¹²

Dylid darllen y canllawiau hyn ochr yn ochr â chanllawiau statudol ac adnoddau allweddol gan gyrrff plismona, gan gynnwys y Coleg Plismona a Chyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu (NPCC).¹³

Pa dystiolaeth sy'n sail i'r canllawiau hyn?

Mae'r canllawiau hyn yn defnyddio'r dystiolaeth fyd-eang orau sydd ar gael ar sut i atal plant rhag cymryd rhan mewn trais. Mae hyn yn cynnwys Pecyn Cymorth YEF, crynodeb trylwyr o dros 2,000 o astudiaethau sy'n cwmpasu mwy na 40 o wahanol ddulliau atal trais, a Phecyn Cymorth Lleihau Troseddu'r Coleg Plismona.¹⁴ Mae'r canllawiau hyn hefyd yn defnyddio ymchwil newydd a ariennir gan YEF, gan gynnwys adolygiadau o arferion plismona, gwerthusiadau o raglenni, ein harolwg blynyddol o dros 11,000 o bobl ifanc 13-17 oed a gwybodaeth gan blant a gasglwyd gan ein hymchwilyr cymheiriaid Peer Action Collective.

Mae Panel Arbenigol o swyddogion heddlu a staff, comisiynwyr ac academyddion, ochr yn ochr â Grŵp Cyngori Strategol o uwch arweinwyr

plismona, wedi llunio'r canllawiau hyn i sicrhau bod yr argymhellion yn ymarferol, yn berthnasol ac yn ddefnyddiol.

Y chwe argymhelliad yn yr adroddiad hwn yw'r dulliau gorau yn seiliedig ar y dystiolaeth orau sydd ar gael: dulliau y canfuwyd eu bod, ar gyfartaledd, yn lleihau trais. Mae fframwaith tystiolaeth-i-benderfyniad (a gyhoeddir ochr yn ochr â'r canllawiau hyn) yn nodi'r dystiolaeth sylfaenol yn llawn. Mae eich barn broffesiynol ar sut i ddefnyddio'r argymhellion hyn, ochr yn ochr â'ch gwybodaeth am eich cyd-destun lleol, yn dal yn hollbwysig. Os ydych eisoes yn rhoi argymhelliad ar waith, canolbwyntiwch ar fireinio arferion yn unol â'r is-gweithredoedd.

Anghymesuredd hiliol

Pam canolbwyntio ar anghymesuredd hiliol?

Er bod plant o bob cefndir yn wynebu trais, mae plant o gefndiroedd ethnig penodol yn llai diogel nag eraill. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn y system cyfiawnder ieuencid sy'n ymwneud â thrais yn Wyn. Fodd bynnag, o'i gymharu â'u cyfran o'r boblogaeth, mae rhai grwpiau lleiafrifoedd ethnig yn cael eu gorgynrychioli. Mae plant du chwe gwaith yn fwy tebygol o ddioddef lladdiad.¹⁵ Mae'r anghymesuredd hwn yn cael ei sbarduno gan ffactorau fel tlodi, hiliaeth a mynediad anghyfartal at gymorth.¹⁶

Gall grwpiau ethnig eang hefyd guddio gwahaniaethau sylfaenol. Er eu bod yn aml yn cael eu categoreiddio fel Gwyn, mae plant o gefndiroedd Sipsiwn neu Deithwyr Gwyddelig yn cael eu gorgynrychioli'n sylweddol yn y system cyfiawnder troseddol. Mae plant o gefndiroedd Du Caribiaidd hefyd yn cael eu gorgynrychioli'n sylweddol mewn arestiadau, ond nid yw hynny'n wir am blant o gefndiroedd Du Affricanaidd.¹⁷

Rhaid mynd i'r afael â mathau eraill o annhegwch hefyd. Mae plant sydd wedi profi tlodi neu'r system ofal a phlant ag anghenion addysgol arbennig ac anabledau (AAAA) yn cael eu gorgynrychioli yn y system cyfiawnder troseddol.¹⁸ Mae pob math o annhegwch yn bwysig.

Pam mae anghymesuredd hiliol yn berthnasol i blismona?

Mae gan yr heddlu gyfrifoldeb cyfreithiol dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus i roi sylw priodol i'r angen i ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon, sicrhau cyfle cyfartal, a meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a phobl nad ydynt.¹⁹

Mae plismona hefyd wedi ymrwymo i weithio i leihau anghymesuredd hiliol ac atal hiliaeth.²⁰ Mae nifer o ymchwiliadau, adolygiadau ac arolygiadau annibynnol wedi cofnodi materion gwahaniaethu, hiliaeth ac anghymesuredd hiliol mewn plismona yng Nghymru a Lloegr.²¹

Yn olaf, mae plismona teg yn cefnogi atal trais yn effeithiol. Gall gor-blismona wneud plant yn agored i droseddoli diangen a gwanhau mynediad at ddargyfeirio a diogelu; gall diffyg diogelwch adael plant yn agored i drais a chamfanteisio. Gall arferion annheg hefyd danseilio ymddiriedaeth yn yr heddlu.

Sut gallwn ni fynd i'r afael ag anghymesuredd?

Defnyddiwch y model **REPAIR** chwe cham i fynd i'r afael â gwahaniaethau hiliol a gwahaniaethau eraill:²²

- R cyfrifoldeb dros weithredu (Responsibility for action):** neilltuwch uwch-berchnogaeth, llywodraethu ac amserlenni ar gyfer deall a mynd i'r afael â gwahaniaeth. Ystyriwch yn ofalus lle mae hyn yn gweithio orau yn eich heddlu.
- E archwilio'r gwahaniaeth (Examine the disparity):** defnyddiwch eich data i ganfod ble mae'r gwahaniaeth yn digwydd ac ar bwy mae'n effeithio. Ystyriwch a yw'r gwahaniaeth yn cael ei siapia gan nodweddion a gwendidau sy'n gorgyffwrdd, fel oedran, rhywedd, ethnigrwydd, ffydd, anabled ac AAAA, profiad o ofal ac amddifadedd.
- P ymchwilio i'r achosion (Probe the causes):** ymchwiliwch i esboniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer y gwahaniaeth. Gall y rhain ymwneud â phlismona, gan gynnwys polisi, ymarfer, lleoliad, disgrisiwn, goruchwyliaeth, tuedd neu ansawdd data; ffactorau ehangach, fel proffiliau oedran gwahanol; neu ymatebion system ehangach. Profwch yr esboniadau yn erbyn eich data.
- A gofyn i eraill (Ask others):** profwch eich esboniadau gyda chymunedau, partneriaid ac arbenigwyr annibynnol. Gall hyn helpu i sicrhau bod eich esboniadau'n gadarn a rhoi cipolwg ar welliannau posibl.
- I gwella ymarfer (Improve practice):** nodi a yw gweithgarwch plismona yn cyfrannu at y gwahaniaeth. Lle mae'n cyfrannu at y gwahaniaeth, aseswch a oes cyfiawnhad dros y gweithgaredd – dylai fynd ar drywydd nod dilyn, bod yn angenrheidiol ac yn gymesur, a chael ei gefnogi gan dystiolaeth wrthrychol yn hytrach na rhagfarn neu ragdybiaethau. Os na fodlonir y gofynion hyn, newidiwch arfer, gan fynd i'r afael ag achos sylfaenol y gwahaniaeth. Hyd yn oed os oes cyfiawnhad dros y gweithgaredd, ystyriwch a allai dull llai niweidiol gyflawni'r un canlyniad neu a allai mesurau diogelu ychwanegol leihau'r effaith. Efallai y bydd hyn yn gofyn am newidiadau i bolisi, lleoliad, goruchwyliaeth, mesurau diogelu neu hyfforddiant.
- R adolygu canlyniadau (Review outcomes):** mesur cynnydd, cyhoeddi canfyddiadau a diwygio eich ymatebion yn ôl yr angen. Os nad yw gwahaniaeth yn gwella, ystyriwch leihau neu atal gweithgarwch. Cyhoeddwch ddata ar wahaniaethau gydag esboniadau clir a chmau gwella, ac adrodd ar gynnydd drwy drefniadau llywodraethu.

Dylech hefyd ystyried Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb wrth ddatblygu neu newid gweithgaredd yn sylweddol. Gall hyn helpu i nodi a allai'r gweithgaredd roi pobl â nodweddion gwarchodedig dan anfantais a pha gamau sydd eu hangen i atal neu liniaru hyn.²³

Argymhellion



Trin plant fel plant

1 Troi plismona sy'n canolbwyntio ar y plentyn yn arferion bob dydd.

Pam? Mae plismona sy'n canolbwyntio ar y plentyn yn helpu i atal trais, yn meithrin ymddiriedaeth ac yn gwella diogelu, ond mae ymarfer yn dal yn anghyson.

Y camau gweithredu a argymhellir:

- A. Gosod disgwyliadau clir ar gyfer rhyngweithio â phlant yn eich heddlu.
- B. Atgyfnerthu'r disgwyliadau hyn drwy arweinyddiaeth, goruchwyliaeth a hyfforddiant.
- C. Creu cyfleoedd diogel, strwythuredig i blant ddylanwadu ar blismona lleol.

2 Archwilio sut rydych chi'n diogelu plant i atal trais.

Pam? Gall diogelu da atal trais, ond nid yw rhyngweithio'r heddlu â phlant yn arwain yn gyson at ddiogelu effeithiol.

Y camau gweithredu a argymhellir:

- A. Cyhoeddi safon diogelu plant ar draws yr heddlu.
- B. Craffu ar arferion diogelu, gan gynnwys defnyddio'r ddalfa ar gyfer plant.
- C. Gwella perfformiad diogelu a mynd i'r afael ag anghymesuredd.



Canolbwyntio ar yr hyn sy'n gweithio

3 Defnyddio dull plismona sy'n canolbwyntio ar broblemau.

Pam? Mae plismona sy'n canolbwyntio ar broblemau (POP) yn effeithiol o ran lleihau trais.

Y camau gweithredu a argymhellir:

- A. Galluogi POP sy'n seiliedig ar ddata drwy gefnogi dadansoddwyr a chryfhau ansawdd data (yn enwedig mewn perthynas â VAWG ac ethnigrwydd).
- B. Datblygu cynlluniau POP o ansawdd uchel gyda phartneriaid a chymunedau lleol.
- C. Dewis ymatebion sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac sydd wedi'u teilwra i'ch problem trais.
- D. Monitro gweithgarwch POP a mynd i'r afael â meysydd i'w gwella ac anghymesuredd.

4

Atal dulliau niweidiol a dadflaenoriaethu dulliau gweithredu heb dystiolaeth.

Pam? Dylid cyfeirio adnoddau cyfyngedig at ddulliau sydd â'r siawns orau o leihau trais.

Y camau gweithredu a argymhellir:

- A. Cynnal asesiad blynyddol o'ch gweithgarwch atal trais lleol.
- B. Rhoi'r gorau i ddarparu dulliau sy'n debygol o gynyddu trais (gan gynnwys rhaglenni ymwybyddiaeth o garchardai a bwt-camps).
- C. Dadflaenoriaethu dulliau gweithredu lle nad yw'r effaith ar drais yn hysbys (gan gynnwys rhaglenni addysg cyllyll, ymgyrchoedd yn y cyfryngau a'r heddlu mewn ysgolion).

5

Gwella ansawdd stopio a chwilio.

Pam? Mae ymarfer stopio a chwilio o ansawdd da yn fwy tebygol o leihau trais. Gall ymarfer o ansawdd gwael arwain at annhegwch a niweidio ymddiriedaeth mewn plismona.

Y camau gweithredu a argymhellir:

- A. Craffu ar weithgareddau stopio a chwilio plant, gan wella cryfder y sail dros ryngweithio ac ansawdd y rhyngweithio hwnnw.
- B. Monitro, cyhoeddi a mynd i'r afael ag anghymesuredd hiliol wrth stopio a chwilio plant.
- C. Darparu hyfforddiant gloywi ar stopio a chwilio i swyddogion rheng flaen.



Dargyfeirio'n dda

6

Creu dull effeithiol a theg o ddatrys y tu allan i'r llys.

Pam? Gall datrysiadau y tu allan i'r llys (OOCR) leihau trais, ond maent yn aml yn cael eu defnyddio'n aneffeithiol ac yn annheg.

Y camau gweithredu a argymhellir:

- A. Sefydlu protocol OCR ar gyfer plant gyda'ch gwasanaeth(au) cyfiawnder ieuenctid lleol.
- B. Monitro eich dull OCR ar gyfer plant a mynd i'r afael â meysydd i'w gwella, ac anghymesuredd.



Trin plant fel plant

Argymhelliad 1.

Troi plismona sy'n canolbwyntio ar y plentyn yn arferion bob dydd.

Pam? Mae plismona sy'n canolbwyntio ar y plentyn yn golygu trin plant fel plant.²⁴ Mae'n golygu bod swyddogion a staff yn ystyried oedran, bregusrwydd, lles a dealltwriaeth plant wrth wneud penderfyniadau ac arfer pwerau'r heddlu.²⁵ Mae'r ffordd y mae'r heddlu'n rhyngweithio â phlant yn bwysig: gall rhyngweithio teg a chllir helpu i atal trais, meithrin ymddiriedaeth a chryfhau diogelwch.²⁶ Er gwaethaf ymrwymiad yr heddluoedd i blismona sy'n canolbwyntio ar y plentyn, mae'r arfer yn parhau i fod yn anghyson.²⁷

Y camau gweithredu a argymhellir

- A. Gosod disgwyliadau clir ar gyfer rhyngweithio â phlant yn eich heddlu.
- B. Atgyfnerthu'r disgwyliadau hyn drwy arweinyddiaeth, goruchwyliaeth a hyfforddiant.
- C. Creu cyfleoedd diogel, strwythuredig i blant ddylanwadu ar blismona lleol.

A. Gosod disgwyliadau clir ar gyfer rhyngweithio â phlant yn eich heddlu.

Dylai ymatebion yr heddlu i blant fod yn wahanol i'r rhai a ddefnyddir gydag oedolion a dylent ystyried oedran, bregusrwydd a lefel dealltwriaeth y plentyn. Fodd bynnag, mae rhai heddluoedd yn dal i ddibynnu ar weithdrefnau a gynlluniwyd ar gyfer oedolion ac nid ydynt yn addasu rhyngweithio ar gyfer plant yn gyson.²⁸

Defnyddiwch wyth egwyddor plismona sy'n canolbwyntio ar y plentyn i osod disgwyliadau rhyngweithio â phlant ar draws eich heddlu. Datblygwyd yr egwyddorion gan blant a phobl ifanc mewn ymgynghoriad â'r heddlu, a chawsant eu profi i sicrhau eu bod yn realistig yn weithredol.²⁹

Wyth egwyddor plismona sy'n canolbwyntio ar y plentyn

- 1 Cyfathrebu priodol:** mae cyfathrebu'n siapio a yw plant yn teimlo'n ddiogel ac yn deall beth sy'n digwydd. Dylai cyfathrebu, gan gynnwys tŷn, cyflymder, geirfa ac iaith y corff, fod yn dawel, yn glir ac yn briodol i oedran ac anghenion y plentyn.
- 2 Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i blant:** dylai plant ddeall beth sy'n digwydd a pham a beth fydd yn digwydd nesaf. Gall esboniadau syml a champau rhagweladwy leihau dryswch a phryder.
- 3 Presenoldeb cyfarwydd:** mae plant yn fwy tebygol o weld yr heddlu fel pobl dibynadwy y gallant fynd atyn nhw pan fydd presenoldeb swyddogion yn glir yn eu cymunedau y tu hwnt i adegau o argyfwng neu orfodaeth. Gall presenoldeb a pharhad staff yn rheolaidd gryfhau perthnasoedd.
- 4 Triniaeth deg:** dylid trin plant fel plant ac yn unol â'r amgylchiadau o flaen y swyddog, nid ar sail tybiaethau am ymddangosiad, cefndir neu ymddygiad blaenorol. Dylai swyddogion fynd ati'n weithredol i warchod rhag rhagfarn, stereoteipiau a thrin plant fel oedolion.

- 5 **Cefnogi llais a chyfranogiad:** mae plant yn fwy tebygol o ymgysylltu â'r heddlu ac ymddiried ynddynt pan fyddant yn teimlo eu bod yn cael eu clywed. Dylent gael cyfle i siarad, i gael pobl yn gwrando arnynt ac i ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio arnynt mewn rhyngweithiadau unigol ac wrth lunio arferion plismona yn ehangach.
- 6 **Lles yn gyntaf:** dylai swyddogion flaenoriaethu lles, chwilyddedd proffesiynol a dad-ddwysáu gyda phlant lle bynnag y bo modd. Mae plant yn ymateb orau pan fydd swyddogion yn dechrau gyda phryder am eu lles, gan ddefnyddio'r ymyrraeth leiaf ymwithol sydd ei hangen ac osgoi grym diangen.
- 7 **Amgylcheddau priodol:** mae plant yn fwy tebygol o deimlo'n ddiogel pan fydd rhyngweithio'n digwydd mewn amodau tawel a hawdd eu rheoli. Dylai'r heddlu leihau'r posibilrwydd o ddod i gysylltiad â'r cyhoedd, osgoi camau gweithredu sydyn a sicrhau bod cyfleusterau'n diwallu anghenion plant. Mae angen rhoi gofal arbennig mewn amgylcheddau dalfa, cludo a chyfweld lle gall plant deimlo'n arbennig o agored i niwed.
- 8 **Dibynadwyedd a dilyniant:** mae ymddiriedaeth yn tyfu pan fydd swyddogion yn dryloyw, yn gyson ac yn gwneud yr hyn maent yn dweud y byddant yn ei wneud. Mae prosesau trosglwyddo clir, diweddariadau amserol a llwybrau hygrych ar gyfer adborth a chwynion yn cefnogi atebolrwydd.

Defnyddiwch yr wyth egwyddor hyn i osod disgwyliadau ar gyfer:

Ymgysylltu â phlant: dylai swyddogion a staff geisio sefydlu oedran cyn gynted â phosibl ac yna ymgorffori'r egwyddorion hyn bob amser wrth rhyngweithio â phlant. Mae'r adnodd Egwyddorion ar Waith yn darparu enghreifftiau ymarferol a allai fod yn arbennig o ddefnyddiol i swyddogion a staff mwy newydd.

Addasu gweithdrefnau'r heddlu ar gyfer plant: mae hyn yn cynnwys stopio a chwilio, arestio, presenoldeb gwirfoddol, dalfa, cyfnodau coll, defnyddio grym, a phlant sy'n ddioddefwyr ac yn dystion.

Dylai gweithdrefnau wneud y canlynol

- Egluro sut mae'r ymarfer yn wahanol i blant ac oedolion.
- Bod ar gael i swyddogion drwy ganllawiau syml neu lif gwaith awtomataidd.
- Cynnwys deunyddiau cyfathrebu sy'n addas i blant.
- Gosod disgwyliadau clir ar gyfer defnyddio a llwytho i fyny fideo o gamera a wisgir ar y corff.
- Ei gwneud yn ofynnol i swyddogion gofnodi sut y gwnaethant addasu eu dull gweithredu.
- Darparu amgylcheddau sy'n briodol i blant, fel dalfa a mannau cyfweld, lle bo hynny'n bosibl.³³

Rhagfarn trin plant fel oedolion

Mae trin plant fel oedolion yn golygu pan fydd plant yn cael eu trin yn hŷn nag y maent – gan gynnwys pan ystyrir eu bod yn fwy aeddfed, yn fwy cyfrifol ac yn llai agored i niwed.³⁰ Pan fydd hyn yn digwydd, efallai na fydd plant yn cael cymorth a diogelwch priodol, gan eu gadael yn agored i drais a chamfanteisio. Efallai y byddant hefyd yn cael ymatebion neu gosb llymach.³¹

Gall rhagfarn trin plant fel oedolion effeithio ar sut mae gweithwyr proffesiynol yn ymateb i unrhyw blentyn, ond gall rhagfarn am nodweddion neu gefndir plentyn, fel ethnigrwydd, rhywedd a statws economaidd-gymdeithasol, ei waethygu. Mae risg benodol nad yw plant Du na phlant o bob grŵp ethnig o gefndiroedd tlotach yn cael eu trin fel plant yn ymarferol.³²

Enghraifft o weithdrefn dalfa sy'n canolbwyntio ar y plentyn

1. Holî a yw'n angenrheidiol a lleihau'r angen i roi plant yn y ddalfa.

- Ymgynghori â Rhingyll y Ddalfa cyn dod â phlentyn i'r ddalfa, gan ddarparu gwiriad ychwanegol bod ei gadw'n angenrheidiol, yn gymesur ac yn briodol.³⁴
- Blaenoriaethu plant sydd wedi'u harestio wrth gofrestru.³⁵
- Cadw plant yn y ddalfa am y cyfnod byrraf posibl, gyda'r nod o'u cyfweld o fewn chwe awr a'u rhyddhau o fewn 12 awr.³⁶
- Ei gwneud yn ofynnol i Arolygydd adolygu cyfnod cadw pan fydd wedi mynd dros 12 awr neu wedi cael ei ymestyn dros nos.³⁷
- Cynnal gwaith craffu amlasiantaethol ôl-weithredol ar benderfyniadau cadw plant.

2. Diogelu hawliau a chefnogi dealltwriaeth.

- Gwneud cynrychiolaeth gyfreithiol yn orfodol a gwneud ymdrechion ar unwaith i gael oedolyn priodol.³⁸

- Darparu gwybodaeth sy'n addas i blant, gan egluro hawliau, prosesau a'r camau nesaf.³⁹
- Darparu swyddog penodedig fel prif gyswllt y plentyn yn ystod pob shift.

3. Nodi anghenion a chydlynu cymorth.

- Rhoi gwybod yn awtomatig i Wasanaethau Plant a Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuencid (YJS).⁴⁰
- Darparu rhestrau gwirio mewn dalfa sy'n nodi'r camau allweddol sy'n ofynnol wrth gadw plentyn.⁴¹
- Sgrinio plant am anghenion cyfathrebu a darparu llwybrau clir at gymorth iechyd meddwl, niwroamrywiaeth a gofal iechyd.

4. Creu amgylchedd sy'n briodol i blant.

- Darparu amgylchedd sy'n briodol i blant yn y ddalfa ac mewn cyfweiliadau.⁴²
- Darparu mynediad at ddeunyddiau llesiant, tynnu sylw a synhwyraidd, yn amodol ar y risgiau a nodwyd.⁴³

B. Atgyfnerthu'r disgwyliadau hyn drwy arweinyddiaeth, goruchwyliaeth a hyfforddiant.

Ni fydd gosod disgwyliadau yn unig yn newid arferion. Atgyfnerthwch y disgwyliadau drwy:

Arweinyddiaeth

Dylai Prif Gwnstabl osod disgwyliad clir bod yr holl swyddogion a staff yn dilyn egwyddorion plismona sy'n canolbwyntio ar y plentyn.⁴⁴ Yna, dylai uwch arweinydd fod yn gyfrifol am wreiddio gweithdrefnau sy'n benodol i blant ar draws polisïau, canllawiau gweithredol a fframweithiau perfformiad yr heddlu. Dylai'r arweinydd hefyd fonitro a yw disgwyliadau'n cael eu hadlewyrchu mewn ymarfer. Gallant ddefnyddio archwiliadau, adolygiadau perfformiad, cwynion, arolygon, cyfraddau gadael plant-tystion ac adborth gan blant a phartneriaid i wneud hyn, gan ddefnyddio eu canfyddiadau i sbarduno gwelliant.⁴⁵

"Mae'n dda cael ein goruchwyliwr allan gyda ni ar y stryd. Mae ganddo flynyddoedd o brofiad, ac mae pobl yn y gymuned yn ei adnabod mor dda. Rydyn ni'n mwynhau ei weld wrth ei waith, gan ein bod yn dysgu gymaint o hynny, ac mae'n ein helpu ni i ymgysylltu â phobl yn well, yn enwedig plant."

Cwnstabl (yr heddlu) a gafodd ei gyfweld yn *Child-Centred Policing in Greater Manchester*, Kemp and Bevan (2026)

Goruchwyliaeth

Er mai uwch arweinwyr sy'n pennu'r weledigaeth, goruchwylwyr (gan gynnwys Rhingyll, Arolygwr a staff yr heddlu sy'n rheoli timau) sy'n cynllunio ymarfer o ddydd i ddydd.⁴⁶ Dylai goruchwylwyr atgyfnerthu disgwyliadau drwy wella'r broses o oruchwyllo digwyddiadau sy'n ymwneud â phlant, mynd gyda swyddogion ar batrolau, adolygu fideos camerâu a wisgir ar y corff a chymryd rhan mewn trafodaethau myfyriol.⁴⁷ Dylent fynd i'r afael ag arferion gwael a gwreiddio plismona sy'n canolbwyntio ar y plentyn mewn disgwyliadau perfformiad a goruchwyliaeth. Gallai goruchwylwyr hefyd ystyried trefniadau cysgodi shiftiau ar gyfer timau rheng flaen neu secondiadau i unedau arbenigol eraill i wella dealltwriaeth.⁴⁸ Lle bo angen, dylai goruchwylwyr gefnogi staff i gael gafael ar gyngor arbenigol, gan gynnwys cyngor ar ymgysylltu â merched neu blant y mae pobl yn camfanteisio arnynt.

Hyfforddiant

Darparu'r hyfforddiant cychwynnol i recriwtiaid newydd ar ryngweithio â phlant, a hyfforddiant gloywi i swyddogion a staff sy'n dod ar draws plant fel mater o drefn.⁴⁹ Dylai arweinwyr dysgu a datblygu'r heddlu fod yn gyfrifol am ddarparu'r hyfforddiant hwn, gan weithio gydag arweinwyr plant, diogelu a meysydd gweithredol perthnasol. Ystyried a ellid ymgorffori cynnwys yr hyfforddiant hwn mewn hyfforddiant perthnasol cyfredol yn hytrach na'i ddarparu ar wahân, a sicrhau bod staff ar draws amrywiaeth o rolau yn cael yr hyfforddiant (gan gynnwys ymateb, cymdogaethau, dalfa, timau ymchwilio, staff sifil a staff trin galwadau).⁵⁰

Dylai hyfforddiant roi popeth sydd ei angen ar staff i gyfathrebu'n effeithiol â phlant; adnabod ac ymateb i drawma, camfanteisio ac anghenion diogelu; deall niwroamrywiaeth ac AAAA; defnyddio cyfiawnder gweithdrefnol a thechnegau dad-ddwysáu; cydnabod a mynd i'r afael â rhagfarn trin plant fel oedolion; gwella cymhwysedd diwylliannol; ac atal gwahaniaethu.⁵¹ Defnyddiwch hyfforddiant sy'n seiliedig ar sefyllfaoedd lle bynnag y bo modd, a chynnwys cyfleoedd i ymarfer cyfathrebu a gwneud penderfyniadau gyda phlant.⁵² Dylai staff sy'n gyfrifol am ddysgu a datblygu fonitro'r ddarpariaeth a'r hyfforddiant a gwlbeir ar draws y timau perthnasol ar lefel yr heddlu.

“Mae llawer o hyn yn dibynnu ar hyfforddi staff... sicrhau bod y bobl sy'n delio â phobl ifanc o ddydd i ddydd yn gwybod sut i wneud hynny. Dydyn ni ddim yn cael yr hyfforddiant hwnnw....”

Cwnstabl yr Heddlu a gafodd ei gyfnewid yn *Child-Centred Policing in Practice* YEF, Allnock et al. (2026)

C. Creu cyfleoedd diogel, strwythuredig i blant ddylanwadu ar blismona lleol.

Gall cynnwys plant yn y gwaith o siapia plismona lleol eich helpu i nodi beth sydd angen ei wella a gwneud i wasanaethau weithio'n well i blant.⁵³

Mae cyfleoedd strwythuredig i blant lywio arferion plismona lleol yn cynnwys:

Panelli cynghori ieuencid: grwpiau sefydledig o blant sy'n cyfarfod yn rheolaidd i gynghori'r heddlu ar bolisiau ac arferion.

Arolygon cymunedol: casglu barn a phrofiadau plant ar raddfa fawr i nodi pryderon a blaenoriaethau.

Mae cyfleoedd eraill yn cynnwys bod yn rhan o baneli craffu, cynnwys plant yn y gwaith o ddylunio dulliau gweithredu newydd a chymryd rhan mewn hyfforddiant swyddogion.

Wrth ddefnyddio unrhyw un o'r dulliau hyn, dylai swyddogion sy'n arwain yr ymgysylltu sicrhau eu bod yn nodi'n glir i'r plant y rôl y byddant yn ei chwarae, a dylent weithredu ar yr adborth y maent yn ei ddarparu lle bo hynny'n briodol. Esboniwch yn glir i'r plant y newidiadau a wnaed ar ôl cael mewnbwn ganddynt (a lle nad ydych wedi gallu gweithredu ar eu hadborth a pham).

Dylai swyddogion sy'n arwain y cyfleoedd ymgysylltu hyn sicrhau bod plant yn teimlo'n ddiogel. Gwnewch hyn drwy ystyried pa swyddogion sydd yn y sefyllfa orau i ymgysylltu ac a ddylent wisgo gwisg swyddogol eu swydd. Ystyriwch hefyd sut gallwch chi gynnwys oedolion a sefydliadau dibynadwy i helpu i hwyluso ymgysylltiad. Gallai'r rhain gynnwys gweithwyr ieuencid, ysgolion, gweithwyr cymdeithasol a mudiadau cymunedol sydd eisoes â pherthynas gref â'r plant dan sylw.⁵⁴

LLAIS IEUENCTID

“Mae'n iawn iddyn nhw ddweud, ‘Rydyn ni'n gwrandao arnat ti’... ond a yw'n mynd ymhellach?’”

Plentyn a gafodd ei gyfnewid yn *Child-Centred Policing in Practice* YEF, Allnock et al. (2026)

Gwnewch yn siŵr eich bod yn ceisio ymgysylltu â phlant sydd â phrofiad uniongyrchol o blismona a thrais. Efallai fod y plant hyn yn llai tebygol o ymddiried yn yr heddlu – mae'n hanfodol clywed eu barn, ond rhaid bod yn ofalus i sicrhau eu bod yn teimlo'n ddigon cyfforddus i gymryd rhan. Yn olaf, gwnewch yn siŵr eich bod yn ymgysylltu â phlant o bob cefndir, yn enwedig y rheini y mae trais yn effeithio'n anghymesur arnynt (fel plant Du a phlant mewn gofal).

Q ASTUDIAETH ACHOS O YMARFER

Leicester Peer Action Collective

Mae'r Leicester Peer Action Collective (PAC) yn rhoi llwybr uniongyrchol i bobl ifanc at siapio plismona lleol. Darperir PAC gan Leicester Violence Reduction Network, Young Leicestershire, Heddlu Swydd Gaerlŷr a dau sefydliad cymunedol ar lawr gwlad – St Matthews Big Local a Team Hub.⁵⁵ Mae'r rhaglen yn recriwtio 12 o Arweinwyr PAC, rhwng 16 ac 20 oed, sydd â phrofiad o ymgysylltu â'r heddlu. Mae'r arweinwyr hyn mewn rolau cyflogedig ac maent wedi'u hyfforddi fel ymchwilwyr cymheiriaid. Maent yn cyfarfod bob wythnos, ac mae pob un yn cael rheolaeth linell a gofal bugeiliol.

Mae PAC wedyn yn arwain ymchwil gyda phobl ifanc ledled Caerlŷr, gan archwilio sut y gall yr heddlu a phobl ifanc gyfathrebu'n well a meithrin gwell ymddiriedaeth yn eu cymdogaethau. Cyflwynir y canfyddiadau'n uniongyrchol i Heddlu Swydd Gaerlŷr.

Disgrifiodd y Dirprwy Brif Gwnstabl Michaela Kerr y prosiect fel cyfle gwych i ddefnyddio syniadau, dealltwriaeth ac anghenion pobl ifanc ar draws Dwyrain a Gorllewin Caerlŷr i wella'n sylweddol y gwasanaeth plismona maent yn ei gael.

Fel y dywedodd un person ifanc a oedd yn gysylltiedig â PAC, *"Heb PAC, ni fyddai'r heddlu'n cael adborth nac yn gwybod sut mae'r bobl ifanc yn teimlo."*



Argymhelliad 2.

Archwilio sut rydych chi'n diogelu plant i atal trais.

Pam? Gall diogelu da atal trais drwy nodi ac ymateb i fregusrwydd, lleihau amlygiad plant i niwed, a chysylltu plant â chymorth priodol.⁵⁶ Mae'r heddlu'n dod ar draws plant ar adegau pan fyddant yn agored i niwed yn rheolaidd, ac eto nid yw'r rhyngweithiadau hyn yn arwain yn gyson at ddiogelu effeithiol.⁵⁷

Y camau gweithredu a argymhellir

- A. Cyhoeddi safon diogelu ar gyfer plant ar draws yr heddlu.
- B. Craffu ar arferion diogelu, gan gynnwys defnyddio'r ddalfa ar gyfer plant.
- C. Gwella perfformiad diogelu a mynd i'r afael ag anghymesuredd.

A. Cyhoeddi safon diogelu plant ar draws yr heddlu.

Mae profiadau plant o ddiogelu yn amrywio'n sylweddol yn dibynnu ar eu nodweddion personol a rhwng heddluoedd, timau a swyddogion unigol.⁵⁸ Cyhoeddwyd safon diogelu ar draws yr heddlu i osod disgwyliadau clir ar gyfer arferion diogelu cyson yn eich heddlu. Dylai Arweinydd Diogelu eich heddlu fod yn berchen ar eich safon diogelu a dylai gael ei gwreiddio mewn fframweithiau perfformiad.⁵⁹

Dylai'r safon osod disgwyliadau clir ar draws tri maes:

1. Arferion diogelu cyson

Ystyried a oes pryderon diogelu ym mhob cyswllt gan yr heddlu â phlant. Mae hyn yn cynnwys stopio a chwilio, arestio, presenoldeb gwirfoddol, dalffa, cyswllt fel dioddefwr neu dyst, a chyfnodau coll. Ystyriwch risgiau y tu mewn a'r tu allan i'r cartref.

Gweithredu pan fydd pryderon diogelu'n cael eu nodi. Dylai hyn gynnwys cofnodi pryderon yn gywir a chymryd camau priodol, fel gwneud atgyfeiriadau, rhannu gwybodaeth, cymryd camau diogelu ar unwaith a chysylltu plant â chymorth priodol.

Cyflwyno atgyfeiriadau diogelu o ansawdd uchel o fewn un diwrnod gwaith i ddod i gysylltiad â phlentyn, lle bo angen. Dylai'r atgyfeiriadau nodi'n glir gyd-destun ac amgylchiadau'r rhyngweithio, arsylwadau a phryderon penodol am y plentyn, a geiriau'r plentyn ei hun.⁶⁰

Dal llais y plentyn. Cofnodwch safbwyntiau'r plentyn yn ei eiriau ei hun mor gywir â phosibl. Lle bynnag y bo'n ymarferol, siaradwch yn uniongyrchol â'r plentyn yn hytrach na dibynnu'n llwyr ar gyfrifon a ddarperir gan rieni neu ofalwyr.⁶¹

Cymhwyso'r safon yn gyson i bob plentyn – waeth beth fo'u hoedran, rhywedd, ethnigrwydd, profiad o ofal, lleoliad neu statws fel dioddefwr neu droseddwr – ac ar draws pob tîm.⁶² Hyd yn oed pan fydd angen gorfodi, gweithiwch bob amser i adnabod ac ymateb i anghenion plant o ran bod yn agored i niwed a diogelu.

“Pan fydd achos yn glanio, pennwch y lens. Os yw'n fater i'r CID [yr Adran Ymchwiliadau Troseddol], mae'n dod yn ymchwiliad. Os yw'n fater diogelu, mae'n ymwneud â bod yn agored i niwed. Os yw'n fater cymdogaethau, mae'n ymwneud â risg ac ymyrraeth. Gellir gweld yr un plentyn mewn tair ffordd wahanol, yn dibynnu ar yr uned.”

Un o swyddogion yr heddlu a gyfwelwyd yn YEF *Safeguarding Children Involved in Violence*, Beckett et al. (2026)

2. Gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth

Nodwch eich partneriaid allweddol. Gallai'r rhain gynnwys Gwasanaethau Plant, Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuencid, darparwyr addysg, gwasanaethau iechyd, timau cymorth cynnar, partneriaethau diogelu, unedau lleihau trais, sefydliadau yn y sector gwirfoddol a chymunedol, a gwasanaethau arbenigol sy'n cefnogi plant y mae trais, camfanteisio neu gam-drin yn effeithio arnynt.⁶³

Cytuno ar sut byddwch yn gweithio gyda phartneriaid, gan gynnwys cyfrifoldebau ar draws y partneriaethau, trothwyon ar gyfer atgyfeiriadau a chyfranogiad mewn fforymau diogelu amlasiantaeth.⁶⁴ Ystyried sut gallai cyd-ymateb, cyd-leoli a hyfforddiant ochr yn ochr â phartneriaid gefnogi diogelu cydlynol.⁶⁵

Cefnogi rhannu gwybodaeth yn amserol â phartneriaid. Gallai hyn gynnwys gweithredu cytundebau rhannu gwybodaeth, llwyfannau digidol, prosesau rhannu gwybodaeth arferol a diweddariadau rheolaidd ar gynnydd a'r camau gweithredu a gymerwyd.⁶⁶

3. Diogelu plant y mae camfanteisio wedi effeithio arnynt

Mae plant y mae camfanteisio wedi effeithio arnynt mewn perygl mawr o ddioddef trais.⁶⁸ Ac mae camfanteisio'n effeithio'n anghymesur ar blant ag anghenion ychwanegol (gan gynnwys anghenion iechyd meddwl neu niwroddatblygiadol) a phlant sydd â phrofiad o ofal.⁶⁹ Fodd bynnag, mae plant y mae camfanteisio wedi effeithio arnynt hefyd mewn mwy o berygl o beidio â chael camau diogelu – yn enwedig pan fyddant yn dod i sylw'r heddlu pan amheuir eu bod wedi troseddu.⁷⁰

Yn eich safon diogelu, nodwch brotocol clir ar gyfer nodi a diogelu plant y mae camfanteisio wedi effeithio arnynt. Dylai hyn gynnwys:

Adnabod: defnyddiwch ddangosyddion camfanteisio ar blant a meithrin perthynas amhriodol ac ystyried a yw'r dangosyddion hyn yn bresennol ar draws rhyngweithiadau â phlant, gan gynnwys stopio a chwilio, arestio, cyhuddo a'r ddalfa.⁷¹ Nodi sut y bydd dangosyddion camfanteisio yn cael eu nodi. Cofiwch fod merched yn cynrychioli nifer fach iawn o blant sy'n cael eu camfanteisio.⁷²

Dioddefwyr yn gyntaf: sefydlwch ragdybiaeth bod plant yr amheuir eu bod yn cael eu camfanteisio arnynt yn droseddol yn cael eu trin fel dioddefwyr yn gyntaf oll, a bod angen eu diogelu. Mae hyn ochr yn ochr ag unrhyw weithgarwch gorfodi cymesur.⁷³

Llwybrau diogelu: nodwch sut bydd plant yn cael eu diogelu. Dylai hyn gynnwys atgyfeirio at ofal cymdeithasol plant, cyfarfod diogelu amlasiantaethol priodol, atgyfeirio at y Mekanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol lle bo hynny'n berthnasol, a chymorth cydgysylltiedig yn seiliedig ar anghenion y plentyn.

Mesurau tarfu: nodwch sut y byddwch yn tarfu ar gamfanteisio, gan gynnwys drwy dargedu'r rhai sy'n camfanteisio ar blant ac amgylcheddau niweidiol.⁷⁴ Sicrhewch fod hwn yn ymateb cydlynol gyda phartneriaid.

Perchnogaeth: nodwch arweinwyr a enwir sy'n gyfrifol am oruchwylio ymateb eich heddlu i gamfanteisio ar blant. Ystyriwch pwysu sy'n ysgwyddo'r cyfrifoldeb yn eich heddlu a rhoi blaenoriaeth i dimau penodol ym maes camfanteisio ar blant.⁷⁵

Mae cysylltiad cryf rhwng camfanteisio troseddol a chymryd rhan mewn trais. O'r plant sy'n dweud eu bod rhywun wedi camfanteisio arnynt (wedi dal cyffuriau, arfau neu arian i rywun yn ystod y 12 mis diwethaf), mae **51% yn dweud eu bod** wedi cyflawni trais difrifol, ac mae **48% yn ddioddefwyr**. Mae hanner yr holl blant sy'n dweud eu bod wedi cyflawni trais difrifol (51%) hefyd yn dweud bod rhywun wedi camfanteisio arnynt.⁶⁷

Q ASTUDIAETH ACHOS O YMARFER

Heddlu Trafnidiaeth Prydain

Mae Tasglu Llinellau Cyffuriau Heddlu Trafnidiaeth Prydain wedi datblygu Dull Diogelu Cydweithredol fel rhan o'i waith i darfu ar weithgarwch llinellau cyffuriau ar rwydweithiau rheilffyrdd. Nod y dull gweithredu yw tarfu ar niwed, nodi angen a pham eu bod yn agored i niwed, a sicrhau bod plant a theuluoedd yn cael ymatebion priodol mewn modd amserol.⁷⁶

Dyma brif nodweddion y dull:

- Ailddiffinio profiadau gyda phlant fel cyfleoedd i ddiogelu a darparu cefnogaeth.
- Cynnwys partneriaid lleol yn y sector statudol neu wirfoddol cyn, yn ystod ac ar ôl gweithrediadau; mae hyn yn cynnwys gweithwyr ieuencid a gweithwyr cymdeithasol sy'n gweithio ochr yn ochr â swyddogion yn ystod gweithrediadau neu iddynt fod ar gael o bell i ddarparu cymorth.
- Cynnal archwiliadau diogelu ar unwaith a chysylltu plant a theuluoedd â chymorth perthnasol.
- Defnyddio'r wybodaeth a geir drwy weithrediadau i gefnogi'r gwaith o ddiogelu plant a mynd ar drywydd ac erlyn yr oedolion sy'n camfanteisio arnynt.
- Darpariaeth gan dîm amlddisgyblaethol, gan gynnwys timau gweithredol, uned sy'n canolbwyntio ar ymchwilio, gwaith fforensig digidol, cymorth dadansoddeg ac uned gymorth bwrpasol ar gyfer diogelu.

B. Craffu ar arferion diogelu, gan gynnwys defnyddio'r ddalfa ar gyfer plant.

Gall craffu ar arferion diogelu fel mater o drefn eich helpu i nodi meysydd i'w gwella. Dan arweiniad Arweinydd Diogelu eich heddlu, dylai craffu fonitro:

- Pa mor dda mae swyddogion yn cadw at eich safon diogelu ar gyfer yr heddlu cyfan.
- A oes camau priodol yn cael eu cymryd pan fydd pryderon diogelu'n cael eu nodi.⁷⁷
- Ansawdd a phrydlondeb atgyfeiriadau diogelu.⁷⁸
- Effeithiolrwydd partneriaethau diogelu.
- Pwy sy'n cael ei ddiogelu a pha mor dda mae'n cael ei ddiogelu; gwnewch hyn drwy ddadgyfuno data yn ôl newidynnau demograffig allweddol⁷⁹, a sicrhau eich bod yn ystyried mathau o niwed sy'n cael eu hanwybyddu'n aml, gan gynnwys VAWG.

Dylid ystyried defnyddio dalfa'r heddlu ar gyfer plant yn fater diogelu.⁸⁰ Yn eich gwaith craffu ar fesurau diogelu, ewch ati i fonitro:

Defnydd diangen: dylid defnyddio'r ddalfa fel dewis olaf i blant.⁸¹ Ewch ati i graffu ar a yw plant yn cael eu rhoi yn y ddalfa yn ddiangen ac a fyddai llwybrau eraill, fel presenoldeb gwirfoddol neu fechniaeth ar y stryd, wedi bod yn fwy priodol.

Defnydd annheg: archwilio a oes gwahaniaethau o ran y plant sy'n cael eu harestio a'u rhoi yn y ddalfa, am ba hyd y cânt eu cadw a'r canlyniadau y maent yn eu cael.⁸² Rhewch sylw penodol i grwpiau sy'n cael eu gor-gynrychioli, gan gynnwys plant Du a phlant sydd â phrofiad o ofal.⁸³

Triniaeth yn y ddalfa: pan fydd angen defnyddio'r ddalfa, sicrhewch fod plant yn treulio cyn lleied o amser â phosibl yno a bod eu triniaeth yn adlewyrchu eu hoedran a'u hanghenion. Mae hyn yn cynnwys sicrhau oedolion priodol yn gyflym ac yn gyson, ac ymateb yn briodol i anghenion ychwanegol a nodweddion sy'n gwneud plant yn agored i niwed (gweler Argymhelliad 1).⁸⁴

Camau diogelu: gall y ddalfa fod yn gyfle pwysig i nodi pryderon diogelu ac anghenion sydd heb eu diwallu, a chysylltu plant â chymorth priodol. Craffwch ar a yw hyn yn digwydd yn gyson.

C. Gwella perfformiad diogelu a mynd i'r afael ag anghymesuredd.

Defnyddiwch eich canfyddiadau craffu i weithredu pan fydd ymarfer diogelu yn disgyn islaw eich safon ddisgwyliedig. Dechreuwch drwy sefydlu perchnogaeth glir dros wella mesurau diogelu yn eich heddlu. Ar gyfer perfformiad diogelu cyffredinol, gall fod yn gyfrifoldeb Arweinydd Diogelu eich heddlu; ar gyfer defnyddio'r ddalffa, gallai fod yn gyfrifoldeb ar y Prif Swyddog i oruchwyllo'r ddalffa.

Mae **97%** o'r heddlu a ymatebodd yn cytuno bod ganddynt rôl bwysig i'w chwarae o ran diogelu plant.⁸⁵

Yna, ymchwiliwch i achosion perfformiad gwael a sefydlu cynlluniau gwella clir, gyda therfyn amser. Ewch ati i fonitro unrhyw weithgaredd gwella ac asesu'r effaith ar berfformiad diogelu. Sicrhewch eich bod yn adrodd ar ganfyddiadau craffu drwy drefniadau partneriaeth llywodraethu a diogelu'r heddlu.

Mae pob plentyn yn haeddu ymateb diogelu. Fodd bynnag, gall plant brofi ymatebion diogelu gwahanol yn dibynnu ar eu cefndiroedd – gan gynnwys eu rhywedd, eu hethnigrwydd, eu hanabledd a'u statws AAAA, a'u profiad o ofal – ac a ydynt yn cael eu hystyried yn ddioddefwyr neu'n blant dan amheuaeth i ddechrau.⁸⁶ Os ydych chi'n nodi gwahaniaethau yn eich ymarfer diogelu, ewch ati'n rhagweithiol i fynd i'r afael â nhw. Gallech ddefnyddio'r model REPAIR (t. 5) i wneud hyn.

ANGHYMESUREDD HILIOI

Gwahaniaethau hiliol mewn ymatebion

Mae proffil ethnig y plant sy'n dweud eu bod yn cymryd rhan mewn marchnadoedd cyffuriau yn adlewyrchu'r boblogaeth yn fras.⁸⁷ Fodd bynnag, mae plant o rai grwpiau ethnig yn cael eu gorgynrychioli mewn data arestio. Er enghraifft, roedd plant Du yn cynrychioli 51% o'r achosion o arestio plant sy'n gysylltiedig â chyffuriau yn Llundain er eu bod ond yn cynrychioli 13.5% o'r boblogaeth yn Llundain.⁸⁸ Mae gwahaniaethau clir wedyn mewn canlyniadau yn dilyn arestiadau sy'n gysylltiedig â chyffuriau. O'r holl grwpiau ethnig, achosion yn ymwneud â phlant Gwyn oedd y mwyaf tebygol o arwain at ganlyniadau yn ymwneud â diogelu (22%) a'r lleiaf tebygol o arwain at gyhuddiad ac erlyniad (43%).⁸⁹ Achosion yn cynnwys plant Du oedd y lleiaf tebygol o arwain at ganlyniadau yn ymwneud â diogelu (3%) ac yn fwyaf tebygol o arwain at gyhuddiad neu erlyniad (71%).⁹⁰



Canolbwyntio ar yr hyn sy'n gweithio

Argymhelliad 3.

Defnyddio dull plismona sy'n canolbwyntio ar broblemau.

Pam? Mae plismona sy'n canolbwyntio ar broblemau (POP) yn ddull plismona rhagweithiol sy'n canolbwyntio ar ganfod achosion sylfaenol troseddu a datblygu ymatebion wedi'u teilwra. Ar gyfartaledd, mae'n lleihau troseddu treisgar 24%.⁹¹

Y camau gweithredu a argymhellir

- A. Galluogi POP sy'n seiliedig ar ddata drwy gefnogi dadansoddwyr a chryfhau ansawdd data (yn enwedig mewn perthynas â VAWG ac ethnigrwydd).
- B. Datblygu cynlluniau POP o ansawdd uchel gyda phartneriaid a chymunedau lleol.
- C. Dewis ymatebion sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac sydd wedi'u teilwra i'ch problem trais.
- D. Monitro gweithgarwch POP a mynd i'r afael â meysydd i'w gwella ac anghymesuredd.

A. Galluogi POP sy'n seiliedig ar ddata drwy gefnogi dadansoddwyr a chryfhau ansawdd data (yn enwedig mewn perthynas â VAWG ac ethnigrwydd).

Er mwyn bod mor effeithiol â phosibl, mae POP yn gofyn am ddadansoddiad cychwynnol cadarn o'r problem y mae'n ceisio mynd i'r afael â hi, a monitro'n barhaus a yw'r ymatebion a ddewiswyd yn cael yr effaith a fwriadwyd. Mae hyn yn gofyn am ddadansoddwyr medrus a data o ansawdd uchel.

Dadansoddwyr medrus

Dadansoddwyr medrus sydd yn y sefyllfa orau i nodi patrymau trais, datblygu proffiliau problemau, llywio penderfyniadau ac asesu a yw gweithgarwch yn cael yr effaith a fwriadwyd.⁹² I gryfhau eich gallu dadansoddol, dylech wneud y canlynol:

Cynnwys dadansoddwyr o'r dechrau a pharhau i'w cynnwys drwy gydol y broses POP, o ganfod a dadansoddi problemau i ddylunio a monitro ymatebion.⁹³

Cefnogi dadansoddi o ansawdd uchel, gan sicrhau bod gan ddadansoddwyr yr amser, yr hyfforddiant, yr ymreolaeth a'r offer (fel meddalwedd ddadansoddi) i gyflawni eu rolau'n effeithiol. Dylai hyfforddiant gynnwys defnyddio gwahanol ffynonellau data a deall anghymesuredd a rhagfarn.⁹⁴

Defnyddio canfyddiadau dadansoddol i lywio'r broses o wneud penderfyniadau; sicrhau bod gan ddadansoddwyr ddigon o amlygrwydd a dylanwad er mwyn i'w canfyddiadau lywio blaenoriaethau ac ymatebion lleol.⁹⁵

Data o ansawdd uchel

Mae angen data o ansawdd uchel i ddeall problemau trais lleol, llywio'r broses o wneud penderfyniadau, monitro'r ddarpariaeth, ac asesu a gwella'r effaith.⁹⁶ Ewch ati i wella'r data rydych chi'n ei ddefnyddio mewn POP mewn dwy ffordd:

1. Cryfhau data'r heddlu.

Dylai uwch arweinwyr sicrhau bod eu heddlu'n gweithio i wella ansawdd a chysondeb y data a gofnodir. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth gywir am ble, beth, pryd a pham mae trais wedi digwydd. Dylai unrhyw un sy'n cofnodi data sicrhau bod gwybodaeth ddemograffig – gan gynnwys oedran, rhywedd, ethnigrwydd, anabledd a statws AAAA, a phrofiad o ofal – yn cael ei chasglu'n gyson ar draws digwyddiadau, atgyfeiriadau, troseddau a logiau cadw yn y ddalfa.⁹⁷ Ystyriwch wneud meysydd gwybodaeth yn orfodol lle bo hynny'n briodol, defnyddio ysgogiadau system a gwirio cofnodion yn y fan a'r lle i sbarduno gwelliant.

Cymerwch ofal i sicrhau bod data'n cael ei gryfhau'n seiliedig ar y canlynol:

Trais yn erbyn Menywod a Merched (VAWG): sicrhewch fod gan eich heddlu ddull cyson o gasglu gwybodaeth am gyflawni VAWG, ac erledigaeth, gan gynnwys cam-drin domestig sy'n digwydd yn y cartref.⁹⁹ Dadansoddwch ddata ar gam-drin plant yn rhywiol i ganfod cam-drin rhywiol rhwng cyfoedion, trais mewn perthynas rhwng pobl ifanc yn eu harddegau, a gorgyffwrdd rhwng cam-drin rhywiol a chamfanteisio troseddol ar blant.

Ethnigrwydd: dylid cofnodi ethnigrwydd plant yn gyson ac yn ddigon manwl, gan ddefnyddio ethnigrwydd wedi'i ddiffinio gan yr unigolyn lle bynnag y bo modd. Cefnogwch swyddogion a staff i ofyn am yr wybodaeth hon yn briodol a chwestiynu lle mae cofnodion ar goll.¹⁰⁰

Dim ond **17%** o'r heddlu a arolygwyd sy'n dweud bod eu heddlu'n casglu ac yn dadansoddi data fel mater o drefn ar sut mae ymyriadau'n effeithio ar blant o gefndiroedd Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig.⁹⁸

2. Cynnwys data gan bartneriaid a'r gymuned.

Gall data o'r tu allan i blismona helpu i greu darlun mwy cyflawn o drais.¹⁰¹ Dylech gynnwys data perthnasol gan bartneriaid amlasiantaeth, gan gynnwys addysg, awdurdodau lleol, gwasanaethau ieuencid ac iechyd. Er enghraifft, gall ymgorffori data adrannau achosion brys ac ambiwlansys roi gwell dealltwriaeth o ble a phryd mae trais yn digwydd.¹⁰² Dylech hefyd gynnwys gwybodaeth gan gymunedau, gan gynnwys plant, i ddeall sut mae trais yn cael ei brofi'n lleol, ble a phryd mae'n digwydd a beth allai fod yn ei yrru. Dylai cymunedau hefyd fod yn rhan o'r gwaith o siapio ac adolygu ymatebion, yn hytrach na'u trin fel ffynonellau gwybodaeth yn unig.¹⁰³

B. Datblygu cynlluniau POP o ansawdd uchel gyda phartneriaid a chymunedau lleol.

Mae cynlluniau POP o ansawdd uchel yn dod â'r heddlu, partneriaid a chymunedau at ei gilydd i ddiffinio problem, deall ei hachosion a datblygu ymateb effeithiol.

Datblygwch gynlluniau POP o ansawdd uchel i fynd i'r afael â thrais sy'n cynnwys plant. Canolbwyntiwch eich cynlluniau ar ardaloedd â phroblemau trais, unigolion sy'n gyfrifol am y niwed mwyaf parhaus a difrifol, a mathau penodol o drais, gan gynnwys VAWG.¹⁰⁴ Defnyddiwch fodel SARA i strwythuro eich cynllun, gan sicrhau bod y cynllun yn rhoi diffiniad clir o broblem, ei fod yn cynnwys dadansoddiad o ansawdd uchel i ddeall yr achosion sylfaenol, a'i fod yn cynnwys monitro a gwerthuso.¹⁰⁵

Datblygwch y cynlluniau POP hyn ochr yn ochr â phartneriaid amlasiantaethol a chymunedol. Gall partneriaethau â sefydliadau cymunedol, cynghorau lleol, ysgolion, gwasanaethau ieuencid a grwpiau ffydd helpu i ganfod achosion o drais, cryfhau'r ddarpariaeth a meithrin ymddiriedaeth. Ystyriwch lle gallai fod angen sefydliadau neu arbenigedd ar gyfer mathau penodol o droseddau.

Ystyriwch y lle gorau i storio a rhannu eich cynlluniau POP yn fewnol i gefnogi ymwbyddiaeth, dysgu a gweithgarwch datrys problemau ar draws yr heddlu yn y dyfodol.

Sut gallwch chi ddefnyddio plismona sy'n canolbwyntio ar broblemau gyda thrais yn erbyn menywod a merched?

Gall Trais yn erbyn Menywod a Merched (VAWG) fod yn llai amlwg yn nata'r heddlu ac felly efallai y bydd angen dealltwriaeth ehangach o'r broblem, y data a'r partneriaid dan sylw. Wrth ddefnyddio POP gyda VAWG:

- ♦ **Gwnewch niwed sy'n gysylltiedig â VAWG yn ffocws** penodol mewn diffiniadau a dadansoddiadau o broblemau; osgoi canolbwyntio'n llwyr ar fannau problemus o ran trais mewn mannau cyhoeddus a allai anwybyddu VAWG.¹⁰⁶
- ♦ **Defnyddiwch ffynonellau data y tu hwnt i droseddau a gofnodwyd**, gan gynnwys datgeliadau yn yr ysgol, atgyfeiriadau cymorth cynnar, data cynhadledd asesu risg aml-asiantaeth a gwybodaeth gan wasanaethau VAWG.¹⁰⁷
- ♦ **Ewch ati i ymgysylltu â gwasanaethau cymorth arbenigol** i helpu i ddatblygu a chyflawni cynlluniau POP, gan gynnwys sefydliadau arbenigol i fenywod a merched, gwasanaethau cymorth trais rhywiol a gwasanaethau atal VAWG.¹⁰⁸

C. Dewis ymatebion sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac sydd wedi'u teilwra i'ch problem trais.

Wrth ddewis ymatebion ar gyfer eich problem trais, dewiswch ddulliau sy'n cael eu cefnogi gan dystiolaeth. Y rhain sydd â'r siawns orau o leihau trais. Dyma dair enghraifft o ymyriadau y dangoswyd eu bod yn lleihau trais: plismona mannau problemus, cyfiawnder adferol, ac ataliaeth â ffocws pendant. Dylech ystyried yn gryf cyflwyno'r strategaethau hyn gyda phartneriaid, fel rhan o ymatebion POP.

Plismona Mannau Problemus

Mae Plismona Mannau Problemus yn lleihau trais 14% ar gyfartaledd, troseddau cyffuriau 30% a throseddau 17%.¹⁰⁹ Mae'n cynnwys nodi lleoliadau â'r lefelau uchaf o droseddu a chanolbwyntio adnoddau a gweithgareddau plismona arnynt. Mae hyn yn cynnwys defnyddio technoleg mapio troseddau i ganfod mannau problemus a defnyddio amrywiaeth o weithgareddau yn y lleoliad. Mae mannau problemus yn tueddu i ffurfio mewn lleoliadau bach, fel rhannau o strydoedd neu barciau ac ardaloedd o amgylch gorsafoedd trên, siopau, tafarndai neu glybiau.

I ddarparu'n dda ar gyfer mannau problemus:¹¹⁰

Diffiniwch yn glir y man problemus rydych chi'n ei dargedu, gan gynnwys ei union leoliad ac ar ba adegau o'r dydd a'r dyddiau o'r wythnos y mae trais yn digwydd yno.

Nodwch yr adnodd y byddwch yn ei ddefnyddio i gyflawni gweithgaredd; ystyriwch ai swyddogion cymdogaeth, swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu (PCSO) neu swyddogion nad ydynt yn gwisgo dillad swyddogol eu swydd sydd yn y sefyllfa orau i fod yno.

Nodwch yn glir i'r staff y tasgau rydych chi eisiau iddynt eu gwneud; gallai hyn gynnwys patrolau cerdded lle mae'n hawdd eu gweld, monitro teledu cylch cyfyng yn weithredol ac ymgysylltu ag aelodau o'r gymuned.

Defnyddiwch dechnoleg i nodi mannau problemus ac i gyfarwyddo a monitro gweithgareddau; er enghraifft, ystyriwch osod ap ar ffonau symudol swyddogion sy'n darparu mapiau amser real o fannau problemus, rhannu briffiau a chofnodir amser a dreulir yn yr ardal.

Gwnewch yn siŵr bod patrolau lle mae'n hawdd gweld y swyddogion yn rhan o strategaeth atal trais ehangach, nid yr unig ymateb rydych chi'n ei ddewis.

Cyfiawnder Adferol

Mae Cyfiawnder Adferol (RJ) yn lleihau trais 34% ar gyfartaledd a throseddu 15%.¹¹¹ Mae'r broses yn cefnogi'r sawl sydd wedi cyflawni trosedd a'r rhai yr effeithiwyd arnynt i gyfathrebu a cheisio unioni'r niwed a achoswyd. Gall ddigwydd ar unrhyw gam o'r broses cyfiawnder troseddol. O dan y Cod Dioddefwyr, mae gan ddioddefwyr hawl i gael gwybodaeth am RJ gan yr heddlu a'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid.¹¹² Er bod bron pob heddlu (43/44)¹¹³ mewn arolwg diweddar wedi dweud eu bod yn darparu RJ, dim ond 68% o swyddogion oedd yn meddwl ei fod yn effeithiol.¹¹⁴ Gall hyn effeithio ar y ffordd y mae swyddogion yn cynnig Cyfiawnder Adferol i ddioddefwyr troseddau.

Er mwyn cyflwyno Cyfiawnder Adferol (RJ) yn dda:¹¹⁵

Gwnewch yn siŵr bod eich staff yn cynnig RJ i blant sydd wedi troseddu a'r rheini sydd wedi cael eu niweidio.

Darparwch hyfforddiant a sesiynau briffio rheolaidd i'ch staff.

Cefnogwch ddealltwriaeth plant o'r broses a chyfranogiad.

Darparwch ganllawiau paratoi mewn iaith syml i'r plentyn, ei rieni/gofalwyr a'r rhai sydd wedi'u niweidio.

Ewch ati i ffurfioli partneriaethau system gyda Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid ac unrhyw ddarparwyr gwasanaeth RJ allanol (gan gynnwys protocolau atgyfeirio a phrosesau data clir).

Ataliaeth â Ffocws

Mae **Ataliaeth â Ffocws** (FD) yn lleihau troseddau 33% ar gyfartaledd.¹¹⁶ Fe'i defnyddir i fynd i'r afael â phroblemau trais difrifol a pharhaus sy'n cynnwys unigolion neu grwpiau. Mae FD yn strategaeth aml-asiantaeth sy'n ceisio nodi'r bobl sy'n ymwneud â thrais difrifol a'u helpu i ymatal a chadw'n ddiogel. Mae'n cynnwys tair elfen: cefnogi, atal a chynnwys y gymuned. Mewn rhaglenni sy'n canolbwyntio ar blant, mae FD fel arfer yn canolbwyntio ar unigolion 14 oed neu hŷn, ochr yn ochr ag oedolion sy'n ymwneud â thrais. Mae FD yn gymhleth ac yn defnyddio llawer o adnoddau.¹¹⁷

Er mwyn cyflawni FD yn dda:¹¹⁸

Gwnewch yn siŵr eich bod yn gallu darparu FD, gan sicrhau bod gennych yr adnoddau, y tîm a'r ymrwymiad angenrheidiol.

Dylech gynnwys y gymuned, gan gynnwys teuluoedd, preswylwyr, arweinwyr a mudiadau cymunedol yn y gwaith o ddatblygu a chyflwyno rhaglenni.

EWCH I'R AFAEL AG ANGHYMESUREDD WRTH DDYLUNIO A GWEITHREDU FD¹²⁰ – heb gynllunio a dylunio gofalus, gall FD effeithio'n anghymesur ar blant o gymunedau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig eraill.

Defnyddiwch ddata a gwybodaeth i nodi'r garfan gywir, olrhain ei chynnydd a monitro'r ddarpariaeth weithredol.¹²¹

Cyfathrebwch yn glir ac yn aml â'r rhai sydd yn y rhaglen.¹²²

Darparwch opsiynau cymorth amserol a phriodol, a gweithredu canlyniadau uniongyrchol a chymesur ar gyfer troseddau parhaus.¹²³

Mae **canllawiau cyflawni Ataliaeth â Ffocws YEF** yn rhoi rhagor o fanylion am sut i gynllunio a gweithredu FD.¹¹⁹

Wrth ddewis ymatebion POP:

Ystyriwch amrywiaeth o opsiynau, gan gynnwys ymyriadau plismona a rhai nad ydynt yn ymwneud â phlismona. Mae rhai o'r ymyriadau mwyaf effeithiol ar gyfer atal plant rhag cymryd rhan mewn trais yn cael eu darparu gan bartneriaid lleol ac fel arfer maent yn canolbwyntio ar wella datblygiad cymdeithasol ac emosiynol, cefnogi iechyd meddwl a datblygu perthnasoedd cadarnhaol. Mae enghreifftiau'n cynnwys therapïau seicolegol, rhaglenni chwaraeon a gwersi atal trais mewn perthnasoedd.¹²⁴ Gall ymatebion gorfodi gan yr heddlu hefyd fod yn opsiynau addas, yn enwedig yn erbyn oedolion sy'n camfanteisio ar blant neu'n gorfodi plant i droseddau. Er enghraifft, gallai'r ymatebion gynnwys arestio a chyhuddo cyflawnwyr o dan ddeddfwriaeth camfanteisio ar blant, ceisio gorchymyn llys yn gwahardd ymddygiad penodol a defnyddio amodau mechnïaeth i gyfyngu ar symud neu gyswllt â dioddefwyr.

Mae eich cyd-destun lleol yn bwysig. Dylech deilwra ymatebion i'ch cyd-destun lleol drwy eu dylunio ar gyfer y lle, y broblem neu'r grŵp penodol yn hytrach na'u cyflwyno fel un dull i bawb.¹²⁵

Q ASTUDIAETH ACHOS O YMARFER

Heddlu Glannau Mersi

Mae Heddlu Glannau Mersi yn defnyddio plismona sy'n canolbwyntio ar broblemau i fynd i'r afael â thrais. Gan ddechrau drwy ddadansoddi data'r heddlu, ochr yn ochr â gwybodaeth gan bartneriaid a'r gymuned, nododd dadansoddwyr heddluoedd 29 o ardaloedd daearyddol bach lle mae trais a throseddau difrifol yn fwyaf dwys.

Mae'r heddlu'n cynnal patrolau lle mae'n hawdd gweld y swyddogion yn y 29 man problemus hyn ar y diwrnodau a'r adegau pan fydd troseddau ar ei anterth. Rhoddir tasgau clir i swyddogion a PCSOs sy'n cynnwys crwydro strydoedd ar droed, bod yn hawdd mynd atynt ac ymgysylltu'n rhagweithiol â'r gymuned a phartneriaid i ddatblygu dealltwriaeth o broblemau lleol. Defnyddir technoleg i fonitro lleoliadau a chasglu adborth amser real gan batrolau.

Ochr yn ochr â phatrolau, mae'r heddlu'n gweithio gyda chymunedau a phartneriaid lleol i ddatblygu ymatebion wedi'u teilwra ar gyfer plant a phobl ifanc. Mae hyn wedi arwain at bartneriaethau gyda grwpiau cymunedol a busnesau i greu sesiynau am ddim ar gyfer amrywiaeth o weithgareddau – o gelf graffiti a DJs i sesiynau ffithrwydd a harddwch. Mae'r rhain wedi'u dylunio gyda phobl ifanc a'r mudiadau cymunedol sy'n eu cefnogi. Fel mae Uwch-aroogydd Mullally yn egluro: *"Nid yw'r heddlu'n dweud, 'Dewch yma, gwnwch hyn'; y gymuned a'r partneriaid sy'n adnabod y bobl ifanc sy'n dweud, 'Gweithiwch gyda ni.'"*

Yn 2025/26, gwelodd yr heddlu ostyngiad o 20% mewn trais difrifol ar draws y 29 ardal problemus o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

D. Monitro gweithgarwch POP a mynd i'r afael â meysydd i'w gwella ac anghymesuredd.

Dylid cynnwys monitro a gwerthuso mewn cynlluniau POP o'r cychwyn cyntaf i sicrhau bod gweithgarwch yn cael ei gyflawni yn ôl y bwriad ac i asesu effeithiau'r ymatebion. Dylai'r Heddluoedd wneud y canlynol:

Casglu data ar weithredu, canlyniadau a phrofiadau cymunedol.

Dadansoddi'r data hwn i ddeall a yw ymatebion yn cael eu cyflawni yn ôl y bwriad; ystyried a yw ymyriadau'n cyrraedd y bobl a'r lleoedd a fwriedir, a yw trais yn lleihau ac a yw'r effeithiau'n gyfartal ar draws plant o wahanol gefndiroedd.¹²⁶

Mynd i'r afael â gwahaniaethau – gellir defnyddio'r model REPAIR ar dudalen 5 i wneud hyn – ac ystyried sut mae anghymesuredd hiliol yn cael sylw ar bob cam yn POP.

Mireinio ymatebion, gan addasu gweithgarwch lle bo angen.

ANGHYMESUREDD HILIO

Ystyried anghymesuredd hiliol o fewn model SARA

Scanning / sganio: a yw'r data'n cael ei ddefnyddio i nodi'r broblem sy'n debygol o orgynrychioli plant o gymunedau penodol? Ydych chi wedi cynnwys gwybodaeth ansoddol gan bartneriaid, plant a chymunedau?

Analysis / dadansoddi: a yw'r diffiniad o'r broblem yn adlewyrchu'r amrywiaeth lawn o blant sy'n dioddef niwed? A yw'r ffactorau sy'n sbarduno niwed i blant yn cael eu cofnodi yn y dadansoddiad?

Response / ymateb: beth yw effaith debygol yr ymateb ar blant o gymunedau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig? A yw'r ymateb wedi'i gynllunio gyda mewnbwn gan y cymunedau hynny?

Assessment / asesu: a yw canlyniadau'n cael eu dadgyfuno yn ôl ethnigrwydd? A yw lleihau niwed yn cael ei asesu ar gyfer plant o bob cymuned ethnig?



Canolbwyntio ar yr hyn sy'n gweithio

Argymhelliad 4.

Atal dulliau niweidiol a dadflaenoriaethu dulliau gweithredu heb dystiolaeth.

Pam? Dylid cyfeirio adnoddau cyfyngedig at ddulliau atal trais sydd â'r siawns orau o leihau trais (y rhai sy'n cael eu cefnogi gan dystiolaeth gadarn o effaith). Ar hyn o bryd, mae heddluoedd yn darparu amrywiaeth eang o ddulliau gweithredu – nid oes dystiolaeth o rai o'r rhain (nid ydym yn gwybod a ydynt yn gweithio) ac mae rhai yn niweidiol (gallant gynyddu trais).¹²⁷

Y camau gweithredu a argymhellir

- Cynnal asesiad blynyddol o'ch gweithgarwch atal trais lleol.
- Rhoi'r gorau i ddarparu dulliau sy'n debygol o gynyddu trais (gan gynnwys rhaglenni ymwybyddiaeth o garchardai a bwt-camps).
- Dadflaenoriaethu dulliau gweithredu lle nad yw'r effaith ar drais yn hysbys (gan gynnwys rhaglenni addysg cyflyll, ymgyrchoedd yn y cyfryngau a'r heddlu mewn ysgolion).

A. Cynnal asesiad blynyddol o'ch gweithgarwch atal trais lleol

Mae heddluoedd yn darparu amrywiaeth eang o weithgareddau atal trais, ond nid oes gan lawer ohonynt ddarlun clir o'r hyn y maent yn ei gyflawni ac a ydynt yn darparu'r dulliau mwyaf effeithiol.¹²⁸ Dim ond 44% o uwch arweinwyr yr heddlu a gafodd eu holi sy'n credu bod penderfyniadau ynghylch atal trais yn seiliedig ar y dystiolaeth orau sydd ar gael.¹²⁹

Cynnal asesiad blynyddol i ddeall a gwella gweithgarwch lleol i atal trais. Dylai'r Heddluoedd wneud y canlynol:

Gweithio gyda phartneriaid lleol i gwblhau'r asesiad;¹³⁰ cyflwynir llawer o ddulliau effeithiol drwy addysg, iechyd a'r sector gwirfoddol.¹³¹

Mapio pa ddulliau sy'n cael eu darparu a sut maent yn cael eu darparu;¹³² cynnwys gwybodaeth am y plant sy'n cael eu cyrraedd, a sefydlu a yw plant o gefndiroedd Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn cael eu targedu'n anghymesur.

Asesu a yw gweithgarwch atal trais yn cyd-fynd â'r dystiolaeth orau sydd ar gael ar yr hyn sy'n gweithio a thystiolaeth ar weithredu llwyddiannus; defnyddiwch Becyn Cymorth YEF a Phhecyn Cymorth Lleihau Troseddau'r Coleg Plismona.¹³³

Gwella eich dull gweithredu lleol, a gweithio gyda phartneriaid i ganfod bylchau, cytuno ar flaenoriaethau a chanolbwyntio adnoddau ar gyfleoedd i wella.¹³⁴

Cyfleu eich canfyddiadau yn fewnol (i swyddogion a staff) **ac yn allanol** (i gymunedau lleol), gan egluro pa ddulliau sy'n cael eu cyflwyno a pham eu bod wedi cael eu blaenoriaethu.

Y Ddyletswydd Trais Difrifol

Mae'r Ddyletswydd Trais Difrifol yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau penodol yng Nghymru a Lloegr, gan gynnwys yr Heddlu, gydweithio i atal a leihau trais difrifol.¹³⁵ Disgwylir i ddeiliaid dyletswyddau, gan gynnwys Prif Swyddogion, ddewis dulliau gweithredu 'sydd wedi'u gwreiddio mewn dystiolaeth o effeithiolrwydd' a defnyddio adnoddau fel Pecyn Cymorth YEF a chanllawiau'r Coleg Plismona i 'gomisiynu gweithgareddau y gwyddys eu bod yn cael yr effaith fwyaf'.¹³⁶

Dysgwch am ddulliau effeithiol o fynd i'r afael â thrais ym [Mhecyn Cymorth YEF](#).

B. Rhoi'r gorau i ddarparu dulliau sy'n debygol o gynyddu trais (gan gynnwys rhaglenni ymwybyddiaeth o garchardai a bwt-camps).

Canfuwyd bod rhai dulliau atal trais yn cynyddu troseddu. Os bydd eich ardal leol yn darparu neu'n ariannu unrhyw un o'r rhaglenni isod, stopiwch ac ailgyfeirio'r adnoddau at ddulliau sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

Dulliau niweidiol

Rhaglenni ymwybyddiaeth o garchardai

Nod y rhaglenni hyn yw atal plant rhag troseddu drwy ddangos pa mor anodd yw bywyd yn y carchar. Mae carcharorion presennol neu gyn-garcharorion yn cwrdd â phlant ac yn dangos iddynt sut beth yw carchar. Mae'r rhaglenni sy'n cael eu hastudio amlaf yn cynnwys plant yn ymweld â charchar, ond mae rhaglenni tebyg yn cynnwys carcharorion yn ymweld ag ysgol neu leoliad cymunedol.¹³⁷

Er mai bwriad y rhaglenni hyn yw atal plant rhag troseddu, mae tystiolaeth yn dangos y gallant gael effaith i'r gwrthwyneb, gan gynyddu trais a throseddu. Ni ddylid eu darparu.¹³⁸ Er gwaethaf hyn,

mae 47% o'r heddlu a holwyd yn credu eu bod yn effeithiol o ran lleihau trais, a dywedodd ymatebwyr mewn ychydig o dan hanner yr heddluoedd (21) fod eu heddlu'n darparu'r rhaglenni hyn.¹³⁹

Bwt-camps

Mae bwt-camps yn wersylloedd preswyl o arddull filwrol i blant sydd wedi troseddu. Eu nod yw gwella hunanddisgyblaeth plant drwy dasgau corfforol heriol, ymarferion tebyg i rai milwrol, caethiwed tymor byr a chosbi cyflym am gamymddwyn. Mae'r rhaglenni hyn fel arfer yn cael eu darparu gan swyddogion carchar, staff milwrol neu Dimau Troseddau Ieuencid.¹⁴⁰ Gall bwt-camps gynyddu trais ac ni ddylid eu cynnal.¹⁴¹

C. Dadflaenoriaethu dulliau gweithredu lle nad yw'r effaith ar drais yn hysbys (gan gynnwys rhaglenni addysg cyllyll, ymgyrchoedd yn y cyfryngau a'r heddlu mewn ysgolion).

Nid yw rhai dulliau atal trais a ddefnyddir yn gyffredin wedi cael eu gwerthuso'n gadarn, felly nid yw eu heffaith yn hysbys. Nid y dulliau hyn yw'r rhai gorau ar gyfer lleihau trais a gallant gael effaith niweidiol.¹⁴³

Dulliau heb dystiolaeth

Rhaglenni ymwybyddiaeth neu addysg am droseddau cyllyll

Nod y rhaglenni hyn yw lleihau faint o gyllyll sy'n cael eu cario.¹⁴⁴ Gallant gynnwys archwilio agweddau at gario cyllyll a thrafodaeth ar y canlyniadau posibl, gan gynnwys straeon, lluniau neu fideos sy'n dangos effeithiau trais. Mae'r rhain fel arfer yn sesiynau untro sy'n para rhwng awr a dwyawr. Nid yw'r rhaglenni byr hyn yn mynd i'r afael â'r ffactorau sylfaenol sy'n arwain at gario cyllyll, gan gynnwys ofn a chamfanteisio, ac felly nid ydynt yn debygol o wneud newidiadau tymor hir i ymddygiad plant.

Ymgyrchoedd ar y Cyfryngau

Nod ymgyrchoedd yn y cyfryngau yw codi ymwybyddiaeth o risgiau a chanlyniadau trais.¹⁴⁵ Mae ymgyrchoedd yn seiliedig ar gyfres o dybiaethau gwan: er mwyn bod yn effeithiol, mae angen i blant weld yr ymgyrch, ac yna rhaid i fwy o ymwybyddiaeth atal cymryd rhan mewn trais ac arwain at newidiadau mewn ymddygiad.

Cynlluniau ildio cyllyll

Mae'r cynlluniau hyn yn galluogi pobl i roi arfau mewn mannau penodol.¹⁴⁶ Mae rheswm da dros gwestiynu pam y byddai cynlluniau ildio yn gweithio: mae argaeledd eang cyllyll yn golygu y gellir cyfnewid cyllyll sydd wedi'u hildio yn hawdd, ac nid yw cynlluniau fel arfer yn mynd i'r afael â'r cymhellion dros gario arf.

O ystyried y pwysau adnoddau sy'n wynebu plismona – gyda **78%** o'r heddlu a ymatebodd i arolwg diweddar yn nodi bod adnoddau cyfyngedig yn rhwystr rhag defnyddio ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth¹⁴² – mae'n hanfodol canolbwyntio adnoddau ar y dulliau sydd fwyaf tebygol o leihau trais.

Yr Heddlu mewn ysgolion

Mewn llawer o ysgolion, mae gan heddwision bresenoldeb corfforol, gweithredol. Gall swyddogion weithio gyda sawl ysgol ar yr un pryd, gydag un ysgol ar y tro neu ar sail ad hoc. Gall swyddogion fod wedi'u lleoli ar dir yr ysgol a gallant ddarparu amrywiaeth o weithgareddau – naill ai mewn ystafelloedd dosbarth (lle gallent ddarparu gwersi neu wasanaeth ar bynciau fel beth i'w wneud mewn argyfwng, cyffuriau neu ddiogelwch personol) neu mewn coridorau (lle gallant gynnal patrolau neu ymchwiliadau cychwynnol i droseddau posibl).¹⁵⁰

RHYBUDD

Y risg o effeithiau sy'n groes i'r bwriad

Mae risg y gallai'r dulliau hyn achosi niwed yn anfwriadol. Os yw eich gweithgaredd yn creu camsyniad ynghylch pa mor gyffredin yw cario cyllyll neu'n cynyddu'r ofn o drais sy'n gysylltiedig â chyllyll, gallai hyn wneud plant yn fwy tebygol o gario cyllyll i'w hamddiffyn eu hunain.¹⁴⁷ Dywed hanner y bobl ifanc 13-17 oed sy'n cario arfau eu bod yn gwneud hynny i ddiogelu eu hunain.¹⁴⁸ Gall delweddau graffig o anafiadau gan gyllyll hefyd beri gofid i rai plant.¹⁴⁹

Os byddwch yn dewis cael plismon ar y safle'n rheolaidd mewn lleoliad addysg lleol, gwnewch y canlynol:

Gosod nod penodol ar gyfer presenoldeb yr heddlu

Gallai'r nod hwn fod i feithrin ymddiriedaeth rhwng yr heddlu, y plant a'r gymuned neu i ddefnyddio'r swyddog fel oedolyn arall y gall y plant ymddiried ynddo. Gwnewch yn siŵr bod gennych nod clir a monitro a yw'n cael ei gyflawni.¹⁵¹

Gosod ffiniau clir gyda'r ysgol a'r heddwes sy'n bresennol.

Er enghraifft, efallai na fyddwch am i'r swyddog stopio plant yn y coridorau neu ymyrryd mewn digwyddiadau yn ymwneud ag ymddygiad. Dylai unrhyw achos o chwilio plant neu eu heiddo ddilyn canllawiau statudol.¹⁵²

Cyfathrebu â phlant, rheini a gofalwyr.

Byddwch yn agored ynghylch pam mae'r heddlu'n bresennol a pha fesurau diogelu sydd ar waith.¹⁵³ Gall hyn fod yn arbennig o bwysig i blant a theuluoedd sy'n ymddiried llai yn yr heddlu.¹⁵⁴

Dewis a pharatoi swyddogion yn ofalus.

Sicrhewch fod swyddogion sy'n cael eu lleoli mewn ysgolion yn cael hyfforddiant a goruchwyliaeth ychwanegol i gefnogi ymarfer sy'n canolbwyntio ar y plentyn a gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth â staff addysg.¹⁵⁵

Cysylltu'n effeithiol ag ysgolion

Er nad yw lleoli'r heddlu mewn ysgolion yn syniad da ar gyfer atal trais, mae cydweithio rhwng yr heddlu a lleoliadau addysg yn hanfodol i ddiogelu plant (ac mae'n orfodol fel rhan o ganllawiau diogelu statudol). Ochr yn ochr â phartneriaid statudol eraill, rhaid i'r heddlu a lleoliadau addysg weithio gyda'i gilydd i hyrwyddo lles plant.

Un enghraifft o'r cydweithredu hwn yw Operation Encompass, sydd ar waith ym mhob heddlu yng Nghymru a Lloegr.¹⁵⁶ Mae'r fenter hon yn mynnu, pan fydd yr heddlu'n mynd i ddigwyddiadau o drais neu gam-drin domestig lle mae plant yn ymwneud yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, eu bod yn rhoi gwybod i'r Arweinydd Diogelu dynodedig yn ysgol y plentyn cyn dechrau'r diwrnod ysgol nesaf. Mae hyn yn sicrhau bod yr ysgol yn gallu cefnogi'r plentyn.

ANGHYMESUREDD HILIOI

Yr heddlu mewn ysgolion a'r risg o anghymesuredd hiliol

Gallai presenoldeb yr heddlu mewn ysgolion peri risg i blant, er enghraifft eu hystyried yn droseddwy am ymddygiad a fyddai fel arall wedi cael ei drin gan ddefnyddio cosbau ysgol nad ydynt yn rhai troseddol. Mae'r risgiau hyn yn arbennig o berthnasol i blant o gefndiroedd Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, a allai brofi cyswllt mwy ymwithiol â'r heddlu. Mae plant du yng Nghymru a Lloegr bron i wyth gwaith yn fwy tebygol o gael eu noeth-chwilio o'u cymharu â phlant Gwyn, ac maent yn cael eu gorgynrychioli o ran bod yn destun defnyddio grym wrth eu stopio a'u chwilio.¹⁵⁷

Mae achos Plentyn Q yn dangos y potensial ar gyfer niwed difrifol. Yn 2020, cafodd merch Ddu 15 oed ei thynnu o arholiad a'i noeth-chwilio gan yr heddlu yn yr ysgol ar ôl i staff amau ei bod yn cario cyffuriau. Ni chanfuwyd unrhyw gyffuriau. Roedd Plentyn Q ar ei mislif ar y pryd, a chafodd ei chwilio heb oedolyn priodol yn bresennol. Canfuwyd yn ddiweddarach nad oedd cyfiawnhad rhesymol dros ei chwilio.¹⁵⁸

Daeth adolygiad diogelu i'r casgliad bod yr ymateb yn anghymesur ac yn niweidiol, a bod hiliaeth a rhagfarn o ran trin plant fel oedolion yn ffactorau dylanwadol tebygol.¹⁵⁹ Roedd yr heddlu a staff yr ysgol wedi troi at orfodaeth yn hytrach na defnyddio dull diogelu yn gyntaf. Mae'r achos yn dangos sut, heb fesurau diogelu gofalus, y gall presenoldeb yr heddlu mewn ysgolion gyfrannu at droseddoli diangen a gwaethygu anghymesuredd hiliol.

Os byddwch yn dewis cyflawni dulliau lle nad yw'r effaith ar drais yn hysbys, dylech wneud y canlynol:

Cyfiawnhau eich penderfyniad. Pam ydych chi'n dewis y dull hwn? Oes gennych chi ddamcaniaeth newid glir? Ydych chi eisoes yn darparu dulliau sy'n seiliedig ar dystiolaeth i safon uchel?¹⁶¹


Gwrio'r dystiolaeth wrth weithredu. Ydych chi wedi cymryd camau i leihau'r risg o niwed? Allwch chi ddysgu o feysydd eraill sydd wedi defnyddio'r dull?¹⁶²

Ymgorffori tegwch hiliol wrth ddylunio a rhoi dulliau gweithredu ar waith.¹⁶³

Gwerthuso'r dull gweithredu. Dylech o leiaf ddiffinio'r hyn rydych chi'n ceisio ei gyflawni, monitro camau gweithredu a dysgu o'r canfyddiadau.¹⁶⁴ Efallai y bydd sefydliadau allanol yn gallu cefnogi gyda gwerthusiad mwy cadarn.¹⁶⁵

Stopio ac ailgynllunio dulliau nad ydynt yn dangos budd drwy werthuso cadarn.

Ffigur 1: Cyflawni'r dulliau hyn nad oes tystiolaeth ar eu cyfer, a'r canfyddiad ohonynt¹⁶⁰





Canolbwyntio ar yr hyn sy'n gweithio

Argymhelliad 5.

Gwella ansawdd stopio a chwilio.

Pam? Mae pwerau stopio a chwilio yn angenrheidiol er mwyn diogelwch y cyhoedd; maent yn caniatáu ar gyfer canfod troseddau a gallant fod yn rhwystr. Fodd bynnag, ni ddylai heddluoedd dybio y bydd cynnydd mewn stopio a chwilio yn arwain at leihau trais. Er bod tystiolaeth fyd-eang (o'r Unol Daleithiau yn bennaf) yn awgrymu y gall mwy o stopio a chwilio gael effaith gymedrol ar droseddu, mae tystiolaeth y DU yn awgrymu effaith isel. Ac mae stopio a chwilio yn arwain at amrywiaeth o risgiau i blant, gan gynnwys defnydd sy'n anghymesur o ran hil. Os bydd stopio a chwilio yn cael ei wneud yn wael, gall hefyd leihau ymddiriedaeth a hyder mewn plismona.¹⁶⁶

Y camau gweithredu a argymhellir

- A. Craffu ar weithgareddau stopio a chwilio plant, gan wella cryfder y sail dros ryngweithio ac ansawdd y rhyngweithio hwnnw.
- B. Monitro, cyhoeddi a mynd i'r afael ag anghymesurededd hiliol wrth stopio a chwilio plant.
- C. Darparu hyfforddiant gloywi ar stopio a chwilio i swyddogion rheng flaen.

A. Craffu ar brosesau stopio a chwilio plant, gan wella cryfder y sail dros ryngweithio ac ansawdd y rhyngweithio hwnnw.

Mae'n bwysig craffu'n ofalus ar arferion stopio a chwilio eich heddlu er mwyn gwella ansawdd, ac mae hyn yn gofyn am graffu mewnol ac allanol. Dylai pob heddlu wneud y canlynol:

Sefydlu proses graffu fewnol. Monitro cyfraddau stopio a chwilio plant yn eich ardal, gan gynnwys achosion o chwilio o dan Adran 60 a noeth-chwiliadau. Hefyd, gwnewch yn siŵr eich bod yn cip-samplo cofnodion stopio, fideos camerâu a wisgir ar y corff a chwynion i nodi blaenoriaethau ar gyfer gwella.

"Dylai'r grwpiau yr ymgynghorir â hwy [drwy stopio a chwilio] bob amser gynnwys plant a phobl ifanc."

Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol Cod A¹⁶⁷

Sefydlu panel craffu cymunedol. Ochr yn ochr â chraffu mewnol, sefydlwch banel craffu cymunedol sy'n cynnwys plant mewn ffordd ystyrlon.¹⁶⁸ Mae hyn yn cynnwys plant sydd â phrofiad o gael eu stopio a'u chwilio, a phlant o gefndiroedd ethnig sy'n cael eu targedu'n anghymesur gan weithgareddau stopio a chwilio.¹⁶⁹ Ystyriwch y ffordd orau o gefnogi plant i gyfrannu i sicrhau eu bod yn gallu cymryd rhan; mae'r dull gorau yn debygol o gynnwys gweithio gyda phartneriaid dibynadwy sydd â perthnasoedd â phlant yn barod.¹⁷⁰ Gwnewch yn siŵr bod y panel yn gallu cael gafael ar yr holl ddeunyddiau sydd eu hangen arno a'ch bod yn cyfleu sut rydych chi wedi gweithredu ar ei adborth.¹⁷¹

Canolbwyntiwch eich gwaith craffu ar dri maes:

1. Lleihau unrhyw stopio diangen.

Dylai pob gweithgaredd stopio a chwilio fod yn angenrheidiol ac yn gymesur.¹⁷² Ar gyfer chwiliadau a arweinir gan amheuaeth, dylai swyddogion fod â sail wirioneddol a rhesymol wrthrychol dros gredu y byddant yn dod o hyd i'r eitem waharddedig berthnasol. Cefnogwch swyddogion i benderfynu pryd mae'n angenrheidiol ac yn gymesur chwilio unigolyn, gan bwyso a mesur y manteision a'r niwed posibl ac ystyried strategaethau amgen.¹⁷³

2. Cryfhau'r sail.

Mae cael sail gryfach dros stopio yn gysylltiedig â chyfraddau canfod uwch ac anghymesuredd is. Dim ond 3% o chwiliadau sy'n arwain at ddod o hyd i arfau, ond mae hyn yn codi i 11% pan fydd gan swyddogion wybodaeth neu ddeallusrwydd y gallai person fod yn cario arf. Ac eto, dim ond un chwiliad o bob 10 sy'n seiliedig ar ddeallusrwydd. Gweithiwrch i gynyddu cyfran y chwiliadau sy'n seiliedig ar seiliau cryf i wella effeithiolrwydd a thegwch.¹⁷⁴

3. Gwella ansawdd y rhyngweithio.

Dylid stopio a chwilio plant mewn ffordd sy'n deg ac sy'n cynnal urddas ac ymddiriedaeth y plentyn.¹⁷⁵ Mae cyfathrebu priodol yn allweddol i sicrhau bod plentyn yn deall beth sy'n digwydd a pham.¹⁷⁶ Dylai camera a wisgir ar y corff gael ei droi ymlaen cyn i'r rhyngweithio ddechrau a dylai'r chwilio arwain at ystyried a gweithredu er mwyn diogelu yn ôl yr angen.¹⁷⁷

Sbarduno gwelliant ar ôl craffu

Gallai hyn gynnwys gosod a chyfleu nodau gwella, cryfhau goruchwyliaeth ar lefel Rhingyll ac Arolygydd a mynd i'r afael â pherfformiad gwael parhaus. Cefnogi swyddogion i wella drwy weithgareddau fel patrolau gyda goruchwylwyr, adborth mewn sesiynau briffio a thrafodaethau perfformiad, a chyfleoedd datblygu lle bo angen.¹⁷⁹

B. Monitro, cyhoeddi a mynd i'r afael ag anghymesuredd hiliol wrth stopio a chwilio plant.

Mae stopio a chwilio yn cael ei ddefnyddio'n anghymesur ar blant Du.¹⁸⁰ Mae plant Du ddwywaith a hanner yn fwy tebygol o gael eu stopio a'u chwilio a phedair gwaith yn fwy tebygol o gael eu noeth-chwilio o'i gymharu â'u cyfran o'r boblogaeth.¹⁸¹ Mae'r gwahaniaethau hyn yn ei gwneud yn arbennig o bwysig bod heddluoedd yn deall ac yn cymryd camau i fynd i'r afael â gwahaniaethau hiliol sy'n codi mewn arferion lleol.

Gwnewch anghymesuredd hiliol yn ganolbwynt allweddol i'ch gwaith craffu ar stopio a chwilio. Yn benodol, archwiliwch wahaniaethau yn nifer y chwiliadau (drwy ddadgyfuno cyfraddau stopio a chwilio plant eich ardal yn ôl ethnigrwydd, a chymharu hyn â data poblogaeth leol a chyfansoddiad ethnig y rhai sydd dan amheuaeth o drosedd). Archwiliwch wahaniaethau hefyd yn y mathau o chwiliadau, cryfder seiliau, canlyniadau, chwiliadau eildro, daearyddiaeth, ansawdd y rhyngweithio, profiadau plant, cwynion ac unrhyw gamau diogelu sy'n deillio o hynny.¹⁸²



ANGHYMESUREDD HILIOI

Anghymesuredd hiliol wrth stopio a chwilio

Roedd astudiaeth ddiweddar ar anghymesuredd wrth stopio a chwilio yn Llundain wedi archwilio'r sail a roddwyd dros stopio unigolion yn 2023.¹⁷⁸ Roedd yn awgrymu:

- ♦ Mae pobl ddu Llundain yn debygol o gael sail o ansawdd is (amwys, mwy goddrychol, gyda llai o dystiolaeth) na phobl Gwyn Llundain.
- ♦ Mae'r term 'trais' yn ymddangos yn llawer mwy cyffredin ymysg pobl Ddu na phobl Wyn Llundain.
- ♦ Plant a phobl ifanc 14-19 oed sy'n cael y sail o ansawdd isaf o blith unrhyw grŵp oedran.
- ♦ Gallai gwella ansawdd seiliau leihau anghymesuredd hiliol.

Lle nodir gwahaniaethau hiliol, cymerwch gamau i fynd i'r afael â nhw. Gall y model REPAIR (t. 5) gefnogi hyn. Hefyd, cyhoeddwyd ddadansoddiadau a data lleol ar wahaniaethau hiliol wrth stopio a chwilio plant ar wefan eich heddlu. Dylech gynnwys esboniad o'r patrymau a nodwyd a'r camau y mae eich heddlu'n eu cymryd mewn ymateb.¹⁸³



LLAIS IEUENCTID

"Roeddwn i'n rhedeg yn ddiweddar; ac roedd lladrad gerllaw. Fe wnaethon nhw fy chwilio, ond doeddwn i ddim yn cyd-fynd â'r disgrifiad o ddyn Du tal. Roeddwn i wedi mynd i banig... rydw i wedi gweld gweithgareddau stopio a chwilio lle mae cyllyll yn cael eu darganfod... felly rydw i'n meddwl bod angen stopio a chwilio pobl... ond mae stopio'r rheini sydd o liw am ddim rheswm yn tanseilio'r broses gyfan. Mae stopio a chwilio yn ddefnyddiol, ond y ffordd mae'n cael ei wneud sy'n bwysig..."

Hanzala, Aelod o Fwrdd Cyngori Ieuencid YEF

C. Darparu hyfforddiant gloywi ar stopio a chwilio i swyddogion rheng flaen.

Mae llawer o swyddogion yn cael hyfforddiant stopio a chwilio ffurfiol yn ystod hyfforddiant cychwynnol yr heddlu yn unig. Mae hyn yn golygu bod ymarfer yn cael ei siapio'n bennaf drwy wyllo a gwrando ar ymddygiad cydweithwyr, ac efallai nad yw hyn yn adlewyrchu canllawiau nac arferion gorau.¹⁸⁵

Ochr yn ochr â hyfforddiant i recriwtiaid newydd, darparwch hyfforddiant gloywi rheolaidd i swyddogion rheng flaen sy'n cynnal prosesau stopio a chwilio. Pennwch amlder yr hyfforddiant yn ôl angen a chapasiti eich heddlu. Lle mae adnoddau'n brin, rhwch flaenoriaeth i swyddogion a thimau ar sail eu defnydd o'r pŵer a thystiolaeth o waith monitro, goruchwyllo, cwynion a chraffu.

Dylai'r hyfforddiant gynnwys:

Gwneud penderfyniadau ac ymarfer proffesiynol

- Gwneud penderfyniadau teg, rhyngweithio proffesiynol, a chyfathrebu clir;¹⁸⁶ mae hyn yn cynnwys gofynion i ddefnyddio camera a wisgir ar y corff a recordio digwyddiadau'n gywir.
- Pwysigrwydd ansawdd yn hytrach na nifer; mae chwiliadau sy'n seiliedig ar seiliau cryf yn fwy effeithiol, ac ni fydd cynyddu nifer y chwiliadau o reidrwydd yn arwain at ganlyniadau.

Bod yn agored i niwed a diogelu

- Ymddygiad priodol wrth chwilio plant, gan gydnabod y gall y profiadau hyn beri gofid arbennig ac y gallant effeithio'n negyddol ar ganfyddiadau o'r heddlu.¹⁸⁷
- Y disgwyliad i swyddogion fod yn broffesiynol chwilfrydig, nodi risgiau a phan fydd rhywun yn agored i niwed, ystyried diogelu ym mhob achos a chymryd camau dilynol lle bo angen.¹⁸⁸

Anghymesuredd, craffu a gwella

- Anghymesuredd hiliol, gan gynnwys data lleol a blaenoriaethau gwella'r heddlu.
- Dysgu gan baneli craffu cymunedol, gan ddefnyddio enghreifftiau o arferion da a gwael.

LLAIS IEUENCTID

"Dwi'n meddwl, pe bydden nhw'n ei wneud o mewn ffordd lai gwahaniaethol ac mewn ffordd fwy pwyllog a gofalgarg, a rhoi tawelwch meddwl i'r person, byddai hynny'n gweithio'n llawer iawn gwell."

Person ifanc yn siarad am stopio a chwilio mewn grŵp ffocws yng Nghymru.¹⁸⁴

Beth yw barn plant am stopio a chwilio?

Canfu arolwg YEF yn 2024 o dros 10,000 o blant ledled Cymru a Lloegr fod y rhan fwyaf o blant yn cefnogi'r defnydd o stopio a chwilio (68%), a dywedodd y rhan fwyaf o'r rhai a oedd wedi'i brofi fod swyddogion yn gwrtais ac yn eu trin â pharch.¹⁸⁹ Fodd bynnag, roedd llai o hyder pan ofynnwyd i'r plant am degwch. Dim ond 56% oedd yn meddwl bod stopio a chwilio yn cael ei ddefnyddio'n deg. Roedd plant Du, Asiaidd ac ethnigrwydd cymysg yn llai tebygol o gefnogi ei ddefnydd neu gredu ei fod yn cael ei ddefnyddio'n deg, tra bod plant o bob grŵp lleiafrifoedd ethnig wedi adrodd am brofiadau llai cadarnhaol o sut cawsant eu trin pan gawsant eu stopio a'u chwilio.¹⁹⁰ Mae'r canfyddiadau hyn yn tanlinellu pa mor bwysig yw stopio a chwilio plant yn deg, yn barchus ac yn gyson.

Argymhelliad 6.

Creu dull effeithiol a theg o ddatrys y tu allan i'r llys.

Pam? Gall datrysiadau y tu allan i'r llys (OOCR) leihau trais. Er bod y defnydd o OOCR ar gyfer plant wedi cynyddu, mae eu defnydd yn aml yn anghyson ac yn annheg. Mae rhai plant yn llai tebygol o gael eu dargyfeirio, ac mae achosion o ddefnydd amhriodol. Gall plant hefyd aros yn rhy hir am gymorth sy'n seiliedig ar dystiolaeth, sy'n gallu mynd i'r afael ag achosion sylfaenol eu hymddygiad.¹⁹¹

Y camau gweithredu a argymhellir

- Sefydlu protocol OOCR ar gyfer plant gyda'ch gwasanaeth(au) cyfiawnder ieuencid lleol.
- Monitro eich dull OOCR ar gyfer plant a mynd i'r afael â meysydd i'w gwella, ac anghymesuredd.

A. Sefydlu protocol OOCR ar gyfer plant gyda'ch gwasanaeth(au) cyfiawnder ieuencid lleol.

Mae gweithio gyda gwasanaethau cyfiawnder ieuencid ar OOCR yn sicrhau bod penderfyniadau'n adlewyrchu amgylchiadau, anghenion a hanes troseddau'r plentyn. Gall hyn arwain at benderfyniadau mwy priodol a mynediad at gymorth effeithiol.¹⁹²

Sefydlu protocol ar y cyd sy'n rhoi blaenoriaeth i wneud penderfyniadau cyflym a mynediad cyflym at gymorth sy'n seiliedig ar dystiolaeth.¹⁹³ Dylai'r protocol nodi'n glir:

Meini prawf cymhwysedd: dylai penderfyniadau gael eu llywio gan y Matrics Disgyrchiant Plant, barn dioddefwyr, ac anghenion, amgylchiadau a safbwyntiau'r plentyn. Dylid osgoi meini prawf sy'n seiliedig ar y math o drosedd neu droseddau blaenorol yn unig.¹⁹⁴

Gwneud penderfyniadau ar y cyd: nodi sut mae penderfyniadau'n cael eu gwneud, a sicrhau bod y rhesymeg yn cael ei chofnodi'n gywir. Gweithredu panel gwneud penderfyniadau ar y cyd (JDMP), gan ddod â'r heddlu a phartneriaid at ei gilydd i gytuno ar y canlyniad mwyaf priodol, a gwneud penderfyniadau'n gyflym.¹⁹⁵ Defnyddio cyfiawnder adferol fel rhan o'r OOCR neu ochr yn ochr ag ef.¹⁹⁶

